

ECO'R WYDDFA

Rhif 261

TACHWEDD 1999

Pris 40c


Cyfarchion Nadolig



Bydd cyfarchion Nadolig busnesau'r fro yn y ddau rifyn nesaf fydd yn cael eu cyhoeddi cyn y Nadolig.

Bydd cyfarchion o Lanberis, Deiniolen, Cwm-y-glo a Brynrefail yn rhifyn Rhagfyr, a chyfarchion Llanrug, Waunfawr, Caeathro a Bethel yn rhifyn y Nadolig.

Stori'r blodyn prin



Bob tro y bydd rhai o blant Llanberis yn gweld llyfr diweddaraf Gwasg Gomer byddant yn cofio'r diwrnod a gawsant yng nghwmni'r awduron. Ddydd Iau, 21 Hydref, roedd plant un dosbarth yn Ysgol Dolbadarn wedi cael gwahoddiad i ymuno â Siân Lewis a Fran Evans ar daith trên i fyny'r Wyddfa wrth i'r Wasg ddathlu cyhoeddi'r llyfr 'Wendi Wlanog a Lili'r Wyddfa'.

Golygai'r tywydd gwael na allai'r trên gyrraedd y copa, ond nid oedd hynny'n amharu gormod ar hwyl y diwrnod. Trefnwyd y daith oherwydd mai stori am Lili'r Wyddfa, y blodyn prin hwnnw sy'n tyfu ar lethrau'r Wyddfa a geir yn y llyfr. Dafad yw Wendi Wlanog, ac wrth adrodd ei stori yn crwydro'r lethrau mae'r llyfr yn cyflwyno sawl neges bwysig am ddiogelu'r amgylchfyd. Ar ddechrau'r stori

mae yna saith lili, ond erbyn y diwedd dim ond un sydd ar ôl. Pam tybed? Caiff darllenwyr ifanc y stori hefyd gyfarfod yr aderyn prin, y gornchwiglen, sydd yn gweld holl anturiaethau Wendi.

Wedi dod nôl i Lanberis aeth y plant i'r Oriel lle cawsant gyfle i holi'r awdures, Siân Lewis, a'r

arlunydd, Fran Evans. Cawsant sgwrs hefyd gan y naturiaethwr, Dyfed Elis Gruffydd. Cafodd y plant hwyl wrth ddysgu am eu cynefin eu hunain. Dyma un genhedlaeth o blant Llanberis a fydd, gobeithio, yn ymwybodol o'r angen i warchod y blodyn prin a'r amgylchfyd yn gyffredinol.

Stori a Nofel



Eurgain efo Tud a Len

Llongyfarchiadau i Eurgain Haf sydd wedi creu stori ar gyfer plant rhwng 2 a hanner a 5 oed. Y mae Eurgain wedi ennill lluo o wobrau am ysgrifennu ers yn ifanc iawn ond erioed wedi cyfansoddi stori i blant, yn enwedig ar gyfer y teledu. Stori ydyw am ddillad hud yn dod yn fyw yn ystod y nos ac yn crwydro'r wlad yn helpu gwahanol bobl — stori hefo digon o hud ac antur.

Yn ogystal ac ysgrifennu stori i

blant mae Eurgain ar hyn o bryd wedi ennill Ysgoloriaeth gan Gyngor y Celfyddydau i ysgrifennu nofel i'r ifanc - rhyddheir hi am dri mis o'i gwaith gyda S4C ac felly mae'r pensil, y papur a'r cyfiriadur yn brysur iawn. Pob dymuniad da i ti Eurgain. Mae'n amlwg mai ysgrifennu sydd yn y gwaed, yn dilyn dy anerchiad tu hwnt o annwyl a difyr fel Llywydd Eisteddfod y Pentref. Pob dymuniad da i ti.

Rhedwr Newydd Cymru



Cafodd Colin Jones ac Alun Vaughan gryn sylw gennym yn ystod y tymhorau diwethaf, ac erbyn hyn mae rhedwr ifanc lleol arall yn dechrau gwneud ei farc. Ym mlwyddyn 11 yn Ysgol Brynrefail mae Gwyn Arfon Williams. Ar ddiwedd 1998 dechreuodd Gwyn ymddiddori mewn rhedeg traws gwlad pan ddewiswyd ef i gynrychioli tîm yr ysgol. Ymhen dim roedd yn gwneud ei farc ac yn cynrychioli tîm ysgolion Gogledd Cymru. Er mwyn gwella safon a chael gwell hyfforddiant ymunodd Gwyn â Chlwb Rhedeg Eryri Harriers. Dyma un o'r clybiau mwyaf rhyfeddol yn sicr yn ein hardal. Mae eu record dros y blynyddoedd o'u dechreuad llwm ac ymroddiad yr unigolion yn anhygoel.

Yn y cyfnod o fis Ebrill i fis Awst '99 rheddodd Gwyn 9 ras mynydd, gan ennill 6, un ail ac un trydydd. Ymysg y rhain roedd ei ymdrech gyntaf ar Ras yr Wyddfa — y prif her i'r rhedwyr lleol. Daeth Gwyn yn ail yn y ras i redwyr dan 17 a chwblhau'r ras mewn amser cyflym iawn. Daeth hyn a hyder iddo ar gyfer treialon ar gyfer tîm Cymru. Y prawf terfynol oedd y ras i'r 36 rhedwr gorau yng Nghymru ar Fynydd y Garn. Enillodd Gwyn y ras ac felly cafodd ei ddewis i'r garfan genedlaethol. Ar Sadwrn, Hydref 23 teithiodd i Felfast i gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth Brydeinig. Edrychwn ymlaen i ddarllen mwy am lwyddiannau Gwyn yn y dyfodol.

CODI PRIS YR ECO

Daeth i'm sylw fod rhai wedi cwyno nad oedd rhybudd wedi ei wneud parthed codi pris yr Eco. Gwnaed hyn yn glir dan y pennawd 'Cyfarfod Blynyddol yr Eco' yn rhifyn Gorffennaf. Dyfynnaf y cymal: Derbyn cynnig i godi pris y papur o 30c i 40c o fis Medi ymlaen. Bydd y pris i'r rhai sy'n talu'n flynyddol yn codi i £4.00 ym mis Ebrill.'

Arwel Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Llywio

ECO'R WYDDFA

Rhif 261
TACHWEDD 1999
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 2
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, TACHWEDD 20
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

Llythyrau

12 Field Terrace
Llanberis

CANTORES

Annwyl Olygydd,
Wrth ddarllen rhifyn Hydref 1
'Ninnau', Papur Bro Cymry
Gogledd America, gwelais
gyfeiriad at farwolaeth Megan
Reese Williams o Fresno, CA ar
Fehefin 28 eleni. Yr hyn a
dynnodd fy sylw oedd y ffaith
iddi gael ei geni yma yn
Llanberis. Dyma'r hyn
ddywedir yn y papur amdani:
'Bu'n aelod ers blynyddoedd o'r
Eglwys Bresbyteraidd Gymreig
yn Los Angeles. Cafodd
Margaret Megan Hughes ei
geni yn Llanberis, Gogledd
Cymru ar Ionawr 17, 1900.
Enillodd y wobwr gyntaf fel
mezzo-soprano yn yr Eistedd-
fod Genedlaethol. Cafodd
hyfforddiant lleisiol gan Wilfred
Jones ym Mae Colwyn a
Chaernarfon a chanodd yn
broffesiynol gyda chorau
eglwysig, a bu'n cadw
cyngherddau.

Daeth Megan i San Francisco
ym 1927 a daeth yn unawdydd
proffesiynol i nifer o gorau
eglwysig. Cafodd waith fel prif
fezzo-soprano ym mherfform-
iad cyntaf 'The Fanchon and
Marco' yn theatr foethus y Fox
Theatre yn San Francisco.
Daeth Megan i Hollywood a
chafodd ran yn y ffilm
'Cavalcade'. Margaret Paris
oedd ei henw llwyfan. Cyfarfu
â'i diweddar wr, Reese
Williams, yn yr Eglwys
Gymreig. Priodwyd hwy yn Las
Vegas ar Dachwedd 17, 1939 a

chawsant ddau o blant, Olwen a
Thomas. Bu farw ei merch
Olwen ym 1966. Ers 1995 bu
Megan yn byw yn Fresno, yn
agos at ei mab, Tom. Gedy ei
mab a'i wyrion, Robert, Bruce,
Sherry, Val a gor-wyr Cameron
Cruce.'

Tybed a oes rhywun yn
gwybod rhagor am ei hanes, ac
a oes yna deulu iddi yn y fro o
hyd?

Dewi Ellis

Menter a Busnes
Parc Gwyddoniaeth
ABERYSTWYTH

Menter y Mis

Annwyl Olygydd
Mawr obeithiaf y byddech
gystal â hysbysu'ch darllenwyr,
trwy golofnau eich papur, am
gystadleuaeth newydd Menter y
Mis sy'n cychwyn o fis
Tachwedd ymlaen.

Cyflwynir gwobr fisol Menter
y Mis i ferch (neu grŵp o
ferched) sy'n siaradwyr
Cymraeg sydd wedi mentro
mewn rhyw ffordd neu gilydd
— wedi dechrau busnes mewn
ffordd draddodiadol; wedi
datblygu gweithgaredd
hamdden yn incwm; wedi
arallgyfeirio'i bywyd mewn
ffordd fentrus; ac yn y blaen.

Bydd y wobryn £250, a bydd
yr enillwyr yn cael sylw
arbennig ar raglen Cwmni Hon
— rhaglen newydd ar S4C
Digidol; ym mhapur Y Cymro,
ac mewn ffyrdd eraill. Yn
amlwg bydd yr enillwyr yn
esiamplo i ferched eraill ac yn
dangos beth sy'n bosib.

Yn ogystal â'r Cymro a'r
cwmni sy'n cynhyrchu Cwmni
Hon mewn Menter a Busnes a
Chwarae Teg yn cydweithio ar y
cynllun newydd hwn.

Gall unrhyw un enwebu
enillwyr posib (heblaw'r
enillwyr posib eu huanin wrth
gwrs!) drwy gysylltu â Menter a
Busnes, Parc Gwyddoniaeth,
Aberystwyth, Ceredigion. Ffôn:
01970 625561; Ffacs: 01970
613366.

Edrychaf ymlaen at glywed
am enwebiadau o'ch ardal chi.
Cofion gorau
Hywel Evans
Prif Weithredwr

Stryd y Deon
BANGOR
LL57 1UT

Annwyl Olygydd
Ysgol Lenyddol, Y Faenol
Fawr, Bodelwyddan 1999
Hoffwn dynnu sylw eich
darllenwyr at Ysgol Lenyddol
sydd i'w chynnal yng Ngwesty'r
Faenol Fawr rhwng Tachwedd
12-14. Un o uchafbwyntiau'r
penwythnos, sy'n dwyn y teitl
'Tindroi yn y Niwl — Llenydd
Mewn Oes Ôl Dduw' fydd
cyfweiliad arbennig gayd'r bardd
R.S. Thomas gan Jason
Walford Davies am 2pm
brynhawn dydd Sadwrn,
Tachwedd 13. Traddodir
darlithoedd yn ystod y
penwythnos gan Densil Morgan
(nos Wener), Gwyn Thomas
(bore Sadwrn) a Gwenllian
Dafydd (bore Sul) a bydd cyfle
i glywed hanes taith i Dde
America ar ffurf cerdd a chân
gan Twm Morys ac Iwan Llwyd
ar y nos Sadwrn.

Trefnir y penwythnos gan y
Ganolfan Addysg Barhaol,
Prifysgol Cymru, Bangor fel
rhan o'n rhaglen
gweithgareddau ar draws
gogledd Cymru, ac fe'i noddir
gan yr Academi. Am gopi o'r
rhaglen llawn, a ffurflen
archebu, dylid cysylltu â
Swyddfa'r Ganolfan Addysg
Barhaol yn Wrecsam ar 01978
316222 (oriau swyddfa) neu
316223 (ar ôl 5pm).

Yn gywir,
Gwynn Matthews
(Ar ran y Ganolfan)

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

ARDDANGOSFA



ARDDANGOSFA

Fel rhan o weithgareddau coffau John Evans cynhaliwyd cystadleuaeth celf i ysgolion uwchradd. Yr enillwyr oedd Ysgol Brynrefail ac roeddent, yn ôl y beirniad, yn llawn haeddu'r wobwr gyntaf o £200.

Roedd safon gwaith blwyddyn saith yr ysgol o ansawdd uchel iawn ac mae'n eithaf amlwg bod y plant a'u hathrawes, Sian Owen, wedi treulio oriau yn creu y cynfasau lliw.

Er mwyn i'r cyhoedd gael cyfle i weld y gwaith trefnwyd arddangosfa yn Oriol y Llyfrgell yng Nghaernarfon o Dachwedd 2 ymlaen am dair wythnos.

Yno hefyd ceir cyfle i weld gwaith cerfio plant Ysgol Waunfawr a gweithwyr yr Antur a fu'n gweithio'n ddyfal o dan arweiniad Meic Watts. Wedi'r arddangosfa bydd y llechi yn cael eu dychwelyd i Waunfawr er mwyn eu gosod i wneud llwybr arbennig ar safle'r Antur.

TREFNWR/WRAIG PLYGU

Yr unig bentref yn yr ardal sydd heb drefnwr/wraig plygu yw Llanrug. Er gwneud sawl apêl nid oes ymateb wedi dod. Mae hon yn swydd allweddol i'w llenwi gan y bydd y diffyg yn peri i bentrefi eraill gario'r byrdwn. Sefyllfa gwbl annheg. Nid yw'n swydd feichus. Y cwbl a olygir yw 2 i 3 awr o'ch amser unwaith y flwyddyn! Bydd yn ofynnol i'r trefnydd gasglu ynghyd nifer o wirfoddolwyr i blygu'r papur, mynd i nôl y bwndelau i Wasg Gwynedd yng Nghibyn, Caernarfon a'u gosod allan yn Festri Capel y Rhos. Dyna'r oll — ac mae'r swydd wedi gorffen am flwyddyn arall!

Os am sgwrs — codwch y ffôn. Bydd y canlynol yn falch o gael trafod.

Y Parch John Pritchard — 872390

Iwan Roberts — 675649

Arwel Jones — 871274

ARDDANGOS LLUNIAU

Bydd yr arlunydd lleol, David Williams, yn arddangos lluniau yn y Tŷ Capel o Dachwedd 12 am dair wythnos.

CLWB BEGANIFS

Cafwyd cychwyn rhagorol i'r clwb yn y Tŷ Capel ar gyfer plant Waunfawr sydd yn mynychu blynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd lleol. Mae rhaglen lawn wedi ei threfnu ar nosweithiau Iau hyd at y Nadolig. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn digwydd yn y labordy maes, ond bydd cyfle hefid i ymweld â chanolfannau eraill fel Plas Marconi i ddringo a Llandudno i fowlio deg.

Etholwyd y canlynol fel swyddogion am y flwyddyn: Elin Huws — Cadeirydd; Osian Owen — Is-Gadeirydd; Trefor Jones — Trysorydd; Yasmin Allen — Ysgrifennydd.

GWEITHGAREDDAU YN Y Tŷ CAPEL

Mae'r Tŷ Capel yn eithaf prysur ar hyn o bryd gyda rhai ymwelwyr yn dal i alw a grwpiau yn cynnal cyfarfodydd yno. Mae ysgolion Bethel a Thalysarn wedi ymweld yn ogystal â grŵp o fyfyrwyr o Goleg Prifysgol Bangor. Mae eraill hefyd wedi holi am logi'r cyfleusterau yn ystod y flwyddyn newydd. Cofiwch os ydych angen lle i gyfarfod cysylltwch â ni — rydym wrth ein boddau yn gweld y lle yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned leol.

GRŴP DYSGWYR

Mae'r grŵp yma yn cyfarfod bob bore Llun a Mercher. Maent yn amlwg yn mwynhau'r gwmniaeth ac ar yr un pryd yn ymdrechu'n galed i ddatblygu eu sgiliau iaith dan arweiniad Delyth a Sue.

DOSBARTH CYFRIFIADUR

Trefnwyd dosbarth cyfrifiadur gyda chefnogaeth Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ar ddydd

ANRHEGU GWASANAETH



Rhes gefn: Mrs Gwenda Roberts, Dafydd Whiteside Thomas, Mrs Jennie M. Jones, Mrs Dilys Jones, Cyng Charles Wyn Jones.
Rhes flaen: Mrs Elizabeth Hughes a Miss Beryl Thomas.

Cafwyd aml i sgwrs a hel atgofion yn neuadd canolfan Hafan Elan, Llanrug bnawn Mercher, Hydref 13 ar achlysur anrhegu Miss Beryl Thomas a dymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad o'r Post yn Llanrug ar ôl pedwar deg a phump o flynyddoedd o wasanaeth. Croesawyd pawb yno gan Mrs Dilys Jones, y Warden a fu'n gyfrifol am drefnu'r gweithgareddau. Llywyddwyd gan y Cyngorydd Charles W. Jones a ddechreuodd y cyfarfod trwy dalu teyrnged i Miss Beryl Thomas.

Ar ran trigolion Hafan Elan, cyflwynwyd teledu i Beryl Thomas gan Mrs Elisabeth Hughes, yr hynaf o'r trigolion. Cyflwynwyd basged o flodau hefyd i Mrs Gwenda Roberts gan Mrs Jennie M. Jones, fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwaith hithau yn y Post yn cynorthwyo ers nifer

helaeth o flynyddoedd, ac a fyddai'n ymddeol yr un pryd.

Dafydd Wh. Thomas a gyflwynodd siec anrhydeddus i Beryl Thomas ar ran trigolion y pentref, a bu yntau, fel Charles yn gynharach, yn hel atgofion am yr amser y bu'n gweithio'n y Post tra'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail. Wedi dros ddeng mlynedd ar hugain o ddisgwyl, cafodd pobl Ceunant eglurhad pam fod y blychau post yn hwyr yn cael eu gwagio'n y prynhawniau am ryw bythefnos — ar gŵn Fferm Ceunant roedd y bai.

Ar ran Capel y Rhos, Capel Hermon a Chapel Bryngwyn, talwyd teyrngedau gan Mrs Beryl Thomas, Mr Alf Parry a Mrs Nancy Jones a chafwyd gair o ddiolch hefyd gan Mrs Fisher o Hafan Elan.

Yn y cyfarfod hefyd cyflwynwyd Mr a Mrs Edgar a Pat Jnes a fydd yn cymryd yr awennau yn y Post ddechrau Tachwedd. Cafwyd gair byr o ddiolch gan Edgar a sylwodd y byddai'n ddeg a phedwar ugain oed pe gallai wasanaethu cyhyd â Beryl!

Daeth y cyfarfod i ben gyda gair a gweddi gan y Parch Philip Hughes. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan y Warden ynghyd â Mrs Ellen Jones, Katie Davies, Ceridwen Williams a Doreen Fisher. Ac yna dechreuodd yr hel atgofion, gyda Mrs Megan Pritchard, sydd bellach wedi ymgartrefu yn Hafan Elan, yn dwyn i gof rai o'r helyntion tra'n bostman yn y pentref. Ond nid yma yw'r lle i gyhoeddi'r straeon rheini...

Mercher. Yn anffodus oherwydd diffyg diddordeb (dau yn unig oedd yn bresennol) cytunwyd i ohirio'r cwrs ar hyn o bryd.

Yn ôl pob sôn mae cyrsiau o'r fath fel arfer yn hynod boblogaidd — efallai nad oedd natur ac amser y cwrs yn apelio y tro hwn. Bwriadwn edrych o'r newydd ar y sefyllfa yn y dyfodol agos. Mae gennym gyfrifiaduron ar gael i'w defnyddio — felly codwch y ffôn, neu alw i'm gweld yn yr Antur os oes gennych ddiddordeb.

D.A. Jones
Swyddog Addysg

Antur Waunfawr



• Meithrinfa Blanhigion

planhigion i'r ardd
gwasanaeth plannu basgedi crog a photiau

• Siop Grefftau Bryn Pistyll

stoc newydd o nwyddau chwaethus
gan grefftwyr Cymreig
dewch draw i weld beth sydd
gennym i gynnig

agored pob dydd Sadwrn yn ystod yr haf
yn ogystal a'n oriau arferol
Llun - Gwener 10.00 - 4.00



650 721

Teithiau Peris Llanberis

Rhagfyr 10 — 12

Albert Hall, Llundain

José Carreras a Bryn Terfel

Pecyn yn cynnwys trê
dau gyngerdd
gwesty pedair seren (dwy noson)

Manylion pellach gan:
Annette Bryn Parri
01286 872 777

O SIAMBAR SELWYN

Ydw, mi 'rydw i yn 'i nabod o. 'I nabod o'n iawn.

Hogyn distaw, swil oedd o, ei drwyn o mewn llyfr o hyd, neu yn crafu stori neu bill ar y llechen las, ac yn rhwbio'i gampweithiau cynnar i ffwrdd hefo penelin ei jysri nes byddai honno'n dwll. 'Doedd ganddo fo fawr o grap ar wneud syms na dim syniad beth oedd ystyr 'stoc an shêrs', ond roedd dan ni'n eistedd yn yr un ddesg, ac yn deall ein gilydd i'r dim.

Cofiwch chi, mater o raid oedd iddo fod yn hogyn bach da yn yr ysgol oherwydd mai ei Fodryb oedd yr athrawes, ac roedd hi'n dipyn o frân wen am gario clecs i'w rieni. Ond gynta iddo gael ei draed yn rhydd o iard yr ysgol roedd o'n gymeriad cwbl wahanol. Oedd, roedd o'n gythral mewn croen ac yn lwmp o ddireidi.

Roedd 'na blisman ym Methel ers talwm ac mi gafodd pob plisman a fu yn y pentra achos i gnocio ar ddrws ei dŷ o i gwyno. O, oedd, roedd o'n gythral o hogyn drwg — wel, yn gythral direidus o leia'. Mi glywais ei fam o droeon yn bygwth ei anfon o i'r 'llog plant drwg' 'na ar Afon Menai os na fyhafiai, ac mi brofodd o flas y wialen fedw yn gyson, ond chwarae teg iddo fe'i clywais yn cyfadde' droeon yn ddiweddarach i chwipiadau poenus y wialen wneud mwy o les nag o loes iddo. Ia, dipyn o ddrwg-weithredwr oedd o — a lleidr. Bobol bach meddwch — lleidr?

Do, mi fuodd o a'i giang yn mynd o gwmpas y pentra i ddwyn giatia'r fro yn flynyddol, yn unol â hen draddodiad Nos Calan. Mawr fyddai'r chwilio a'r diawlio y bore dilynol, a chyn diwedd dydd hel c'lennig mi fyddai'r Plisman Beic wedi galw yn nhai pob un ohonom fel 'Sierloc Hôms' i wneud ymholiadau ynglŷn â diflaniad y giatiau. Fel arfer yn Afon Tyddyn Bach y bydden nhw yn un pentwr.

Fo fyddai'r 'lidar' pan aem yn giang o ladron bach i ddwyn 'fala, nid am ein bod ni'n orhoff o'r ffrwythau cofiwch, ond am y ffaith y caem rhyw wefr arbennig wrth sleifio i berllan Ty'n Radd i lenwi ein pocedi â ffrwyth Gardd Eden. Ychydig o flas a gaem ar y 'fala mae'n wir, ond caem bleser mawr wrth bledu ein gilydd â'r ysbail. Y sialens fwy yn y cyfnod dwyn 'fala oedd dringo dros wal uchel Persondy Llanddeiniolen. Nid yn unig drigno'r wal oedd yr her, ond ceisio llenwi ein 'trowsusau-dwyn-'fala' cyn i gi bygythiol y parchedig wr gydio yn ein coesau. Ia, dyddiau difyr oedd y dyddiau 'lladrata'.

Un o'i bleserau pennaf oedd chwarae 'noc dors'. Roedd o'n gynllunydd arbennig ar y gêm hon. Gan fod tai gyferbyn â'i gilydd yn Stryd Ganol, be fyddai o yn wneud ond trefnu i glymu'r drysau â oedd ar un ochr i'r stryd hefo'r drysau gyferbyn. Yna fel cadfridog ar fyddin, fe drefnai i ni, aelodau o'r giang, sefyll un wrth bob drws, ac ar ei orchymyn o, rhoi cnoc hegar ar y drws a oedd gyferbyn â ni. Sôn am 'dug o war' oedd yn Stryd Ganol y nosweithiau hynny.

Roedd o'n droseddwr bach 'eitha slei' hefyd. Pan fydden ni'n mynd ar berwyl drwg i gnocio drysau'r fro, mi fyddai o yn rhoi coblyn o gnoc ar ddrws ei gartre ei hun wrth basio. Pan alwai Plisman Beic (Flash fydden ni yn ei alw fo) yn ei dŷ y dydd dilynol i gwyno, byddai ei fam yn ei diniweidrwydd yn fwy na pharod i achub cam ei 'mab afradlon', gan ymateb — 'Na, Mistar Jos bach, chwara teg i'r hogyn 'ma, doedd o ddim hefo nhw neithiwr, mi fuo'r cnafon bach yn cnocio'r drws yma hefyd nes oedd y tŷ ma'n cryno.' Ia, gwyn y gwêl.

Unig blentyn oedd o fel finna, ac mi wn i o'r gora mai hen beth digon diflas ydi chware 'Snecs a Laders', 'Liwdo' a 'Tidli Wincs' hefo chi'ch hun. Ond mi

roedd ganddo fo gath. Mwt oedd ei henw hi, hen gath lonydd, annwyl iawn, ac mi roedd y ddau yn dipyn o fêts, er gwaetha'r ffaith y byddai o gyda'i gynlluniau direidus yn ei phryfocio'n aml. Roedd o'n clymu pethau yn sownd yn ei chynffon hi, ei charcharu yng nghrombil yr hen gloc mawr, ac yn ei saethu hi'n aml hefo gwn dŵr. Weithiau hi fyddai'r teigar a fo fyddai Tarzan. Oedd roedd ganddo fo ddychymyg byw ac er gwaetha'r pryfocio plentyn-naidd roedd Mwt yn mynnu dod i ganu grwndi ar ei lin o bron iawn bob nos.

Dim ond Mwt a fo oedd yn y tŷ un diwrnod gwyntog, glawog pan gafodd o'r syniad i wneud y gath yn dipyn o arwres drwy ei pharatoi ar gyfer ymuno â'r 'Red Devils'. Roedd ei dad o wedi cael sgarff sidan, un gweddol fawr, yn bresant pen-blwydd ac mi gafodd o, wrth gwrs, y 'brên wêf' y byddai'r sgarff yn gwneud parasiwt i'r gath. Fe glymmodd gorneli'r sgarff a gwnaeth harnes hefo llinyn, a strapio'i ddyfais am gorffyn blewog Mwt. Dringo'r grisau yn llawn cyffro a'r gath yn ei freichiau, yn gwbwl hyderus y byddai ei arbrawf yn llwyddiannus.

Agorodd ffenast y llofft. Disgwyl am bwff o wynt go gryf a gollwng y gath druan i ddannedd y ddrycin, gan ddisgwyl ei gweld hi'n llithro'n hamddenol braf i'r ardd islaw. Ond, yn anffodus, agorodd y parasiwt ddim a disgynnodd Mwt druan fel baw o ben-ôl buwch i'r lawnt — ar ei phedair coes, mae'n wir. Yn ôl ei ddisgrifiad o'r drychineb — yn ei sioc, fe roddodd Mwt un 'miaw' o brotest, gan edrych yn amheus i gyfeiriad ffenast y llofft, ymsythodd ac i ffwrdd â hi fel cath i gythraul dros wal yr ardd, gan garlamu'n wyllt i gyfeiriad Tyddyn Andro a'r parasiwt aflwyddiannus yn ei dilyn fel barcud di-adennydd.

Aeth tridiau heibio cyn i Mwt fentro adra. Cafodd groeso'r 'mab afradlon' gan ei fam. Holwyd hi, ond fe ddiolchodd o

droeon na fedrai cath siarad ac fe gyfaddefodd mai digon amharod fu'r gath i ddod i ganu grwndi ar ei lin o byth wedyn. Ac o feddwl dros y peth pwy welai fai arni yntê? Gyda llaw, bu diflaniad y sgarff sidan yn dipyn o ddirgelwch ar yr aelwyd. Chwiliwyd amdani ymhobman a bu cryn holi. Fel y dywedodd o wrtha i, fe holwyd pawb, ond y gath.

Oedd, roedd o'n llawn direidi. Roedd o'n hoff o gystadlu hefyd, boed y gystadleuaeth ar Faes y Campau neu ar faes yr Eisteddfod. Sawl tro y buom ni'n troi Parc-y-Wern yn Wembla a Gors Tyddyn Bach yn Goodison. Oedd, roedd o'n cael pleser o gystadlu. Roedd o'n hoff iawn o adrodd am y fuddugoliaeth gynta a ddaeth i'w ran o 'rioed a fynta yn cofio dim am y peth. Yn ei feddiant mae bocs o lwyau te arian na ddefnyddiwyd mohonyn nhw 'rioed, ac yn bocs mae 'na gerdyn a'r geiriau arno *1st Prize for the best baby fed on Nestles Milk*.

Hefyd yn yr un bocs mae 'na doriad o'r papur lleol sy'n profi iddo gael y wobr gynta yn Sioe Fabanod Y Felinheli. Fe soniodd yn gellweirus wrtha i droeon am y fuddugoliaeth fawr honno, gan ddychmygu'r wên ar wyneb ei fam, a'r llawenydd yn ei chalon wrth iddi ei rowlio adra yn y pram o'r Felinheli i Fethel ar y diwrnod buddugoliaethus hwnnw. Roedd o hefyd yn cael hwyl wrth ddychmygu'r cawodydd o gusanau a fu'n tywallt arno, gan iddo ddod a chymaint o anrhydedd i'r teulu.

Pwy fasa'n meddwl yntê y byddai'r babi bach buddugoliaethus hwnnw yn tyfu i fyny i fod yn gythral bach mor ddireidus, ond roedd o'n credu'n sicr mai yn Sioe Fabanod Y Felinheli y plannwyd yr ysfa i gystadlu ynddo fo.

O do, mi fuodd o'n gystadleuydd, eitha llwyddiannus ar y cyfan hefyd.

Ia, dyddiau hapus oedd dyddiau ein plentynod ni ac roedd o a finna yn mwynhau yr un petha, yn gwneud yr un dryga, yn llawn o ddireidi ac yn deall ein gilydd i'r dim.

Oedd, roedd ni ar yr un donfedd, ac yn dipyn o fêts.

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio pŵerau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513



Beth am anfon
gwybodaeth am
weithgareddau
Nadolig
i
rifyn nesaf yr Eco!

Un funud fach . . . LLOFRUDDIAETH

Cawsom noson ddifyr yn Neiniolen neithiwr wrth glywed am ddau achos o lofruddiaeth. Dafydd Whiteside Thomas oedd yn sôn wrthym yn y Gymdeithas Undebol am y ddau achos a ddigwyddodd yn yr ardal hon o fewn mis i'w gilydd ym 1879. Mae un o'r ddwy stori i'w gweld yn y golofn 'Chwilota' yn y rhifyn hwn. Roedd y stori arall am Wyddel yn cael ei ladd yn Llanberis. Diddorol oedd clywed yr hyn a ddywedodd y gwahanol dystion yn y ddau gwest. Mi wnes i fwynhau fy hun yn arw yn clywed yr hanesion.

Mae yna rywbeth digon diniwed mewn llofruddiaeth a ddigwyddodd dros ganrif yn ôl. Rydan ni ddigon pell oddi wrth y peth. Mae'r cymeriadau'n ddiarth i ni. Mae trasiedi'r digwyddiad wedi ei wanhau. Mae'r llefydd yn gyfarwydd i ni, ond mae canrif a mwy rywsut wedi troi'r hanesion yn ddeunydd nofel dditectif neu ffilm ddifyr. Mae'n siwr y byddai fymateb i'r stori dipyn gwahanol petawn yn nabod Twm Penhowe neu David Jones.

Mae digwyddiadau a barodd fraw a dychryn yn eu dydd wedi troi'n straeon y gallwn ni eu hadrodd a'u gwrando â blas mawr. Ac mae'n debyg i'r un peth ddigwydd i'r hanes hwnnw am ddyn ifanc gafodd ei ladd yn Jerusalem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Mae'r digwyddiad hwnnw wedi troi'n stori dda i'w hadrodd mewn ysgol a chapel a chartref.

Ond mae Calfaria yn ddigon pell i ffwrdd. Ac mae dioddefaint y dyn o Nasareth rywsut wedi ei leihau yn ein golwg gan dreigl y blynyddoedd. Ond wrth nesau at ddiwedd yr ail filfwyddiant ers ei eni, gobeithio cawn ni weld fod â wnelo'r farwolaeth honno â'n bywydau ni. Llwenydd mwyaf Cristnogion yw gwybod mai er eu mwyn hwy, a throstynt hwy y bu farw'r gŵr ifanc hwnnw.

A rhan o'r un llwenydd yw gwybod fod Iesu Grist yn dal yn fyw ac yn Gyfaill a Gwaredwr i bawb sy'n credu ynddo ac yn ei garu.

JOHN PRITCHARD

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DIOLCH: Dymuna Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd yn ystod gwaeledd John. I'r meddygon a'r nyrsus yn y gymuned ac yn Ysbyty Gwynedd ac i'r llu ffrindiau a chymdogion. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar yr achlysur trist o golli priod ffyddlon. **MARWOLAETH:** Mae'n sicr eich bod wedi darllen yn y rhifyn

diwethaf o'r Eco am farwolaeth un o blant y Fachwen, sef Wilfred Alan Jones. Derbyniais lythyr gan ei chwaer, sef Mrs Beryl Shields sydd ar hyn o bryd yn byw yng Nghonwy, yn gofyn imi fynegi mor falch y byddai Wil o dderbyn yr Eco bob mis yn Poole, Dorset. Byddai wrth ei fod yn darllen newyddion o'r hen fro.

Fe fydd ei eulu yn dod a'i lwch yn ôl i Gymru yn y dyfodol agos. Dymuniad Wilfred oedd i'w lwch gael ei wasgaru ar Bont Penllyn, lle y treuliodd lawer orig hapus.

Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyr â Bobby Wyn, ei frawd a Beryl a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU: Anfonwn longyfarchiadau gwresog i Mrs Alice Myfanwy Griffith, Tan Bwlch am ddod yn gyntaf drwy Gymru am ysgrifennu Limrig mewn cystadleuaeth gan Ferched y Wawr. Da iawn chi Mrs Griffith.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco yr oedd yn edrych yn ddu iawn arnom am gael Cymdeithas eleni ond ar ôl cyhoeddi'r Eco cefais fwy nag un galwad ffôn yn dweud mai nid diffyg diddordeb oedd ond eu bod wedi llwyr anghofio am y pwyllgor. Felly fe alwyd pwyllgor brys a da yw dweud fod cefnogaeth dda yno. Ond yn well na hynny gallwn ddweud fod y trefniadau yn mynd

yn eu blaenau ac y bydd Cymdeithas yn cael ei chynnal eleni eto. Bydd yn dechrau ar 28 Hydref. Hefyd nid yw chwyddiant wedi effeithio dim ar y tâl aelodaeth. £1 y tymor fydd yr aelodaeth ac fe fydd croeso cynnes i bawb. Byddwn yn agor y tymor hefo Cyngerdd.

PWYLLGOR Y GANOLFAN: Bydd pwyllgor o'r uchod yn y Ganolfan ar Tachwedd 4 am 1 o'r gloch. Taer erfynnir am bresenoldeb gan fod mater pwysig i'w drin.

AR Y RADIO: Llongyfarchiadau i Mrs Karen Jones, Tŷ Capel Sardis a Mr Emrys Owen, Bron Myfyr am ennill gwobrau ar y radio. Da iawn chwi.

MAM

Nid oes pris ar gariad Mam Sy'n gofalu na chaf gam, Er ei bod yn awr yn hen Mae'n dal i 'ngharu gyda gwên.

Wedi brwydro drwy ei hoes, A minnau'n mynnu tynnu'n groes! Rhannu'r te, y droth a'r jam, Rhoi y cyfan, dyna Mam.

Golchi'r dillad gyda llaw A'u sychu wedyn cyn dô'r glaw; Codi'n gynnar gyda'r wawr, Aberthu'i hun drwy dlodi mawr.

Wedi'i magu ar fwyd plaen, Plygu'n raddol dan y straen; Magu ninnau, pump o blant Mor ofalus cant y cant.

Byth yn cwyno, er yn dlawd, Gwybod beth oedd loesau'r cnawd; Ac yn awr, diolchwn ni Am ei gofal tyner hi.

John V. Morris
Rhianfa

TeleCabana — ar wib atoch chi

Bydd y TeleCabana yn ymweld â Deiniolen rhwng nos Fercher Tachwedd 10 a dydd Gwener 12. Uned symudol ydy'r TeleCabana gyda 8 cyfrifiadur sy'n galluogi unrhyw un i gael gwers ar ddefnyddio'r cyfrifiadur a hynny heb symud o'u hardal.

Mae'r ymweliad wedi ei drefnu gan Mantell Gwynedd, mudiad sy'n cefnogi grwpiau gwirfoddol trwy Wynedd. Mae'r hyfforddiant gyfrifiadurol yn rhad ac am ddim i aelodau o unrhyw grŵp neu glwb lleol — boed hwnnw'n dîm darta, rieni cylch meithrin neu unrhyw fudiad arall. Gallwch fynychu fel grŵp cyfan neu fel unigolyn. Y peth pwysig ydy bod pawb yn cymryd mantais o'r cyfle unigryw yma. Dyma'r amserlen.

Yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen

Mercher, 10: 6pm — 9pm Prosesu Geiriau Sylfaenol

Iau, 11: 10am — 1pm Defnyddio'r cyfrifiadur i ddechreuwyd

Iau, 11: 2pm — 5pm Sesiwn gwag ar gyfer grwpiau

Iau, 11: 6pm — 9pm Cynllunio poster

Gwener, 12: 10am — 1pm Sesiwn gwag ar gyfer grwpiau

Gwener, 12: 2pm — 5pm Prosesu Geiriau Uwch

I gadw lle ffoniwch Mantell Gwynedd (01286) 672626.

PLESERDEITHIAU HANESYDDOL

AR FFWRDD

SEREN YR WYDDFA

O

BARC GWLEDIG PADARN
Y GILFACH DDU, LLANBERIS



Camwch yn ôl mewn amser ar fwrdd Seren yr Wyddfa.

Mwynhewch daith hamddenol ar gwch dan orchudd ar Lyn Padarn, gyda golygfeydd panoramig o Eryri. Mae'n gyfle perffaith i dynnu lluniau a gwrando ar hanes y cyffiniau.

Bydd y cwch yn hwylio o'r lanfa 200 llath o'r Amgueddfa Lechi a maes parcio Rheilffordd y Llyn.

Oedolion	£3.50
Yr Henoed	£3.00
Plant o dan 15	£2.00
o dan 3	Am ddim
Teulu 2 + 2	£10.00

Mordeithiau Hanesyddol Menai
Holwch ynglŷn â theithiau preifat a mordeithiau estynedig. Prisiau partïon ar gael. Ffôn: 07974 716418 (dydd) 01248 671156 (gyda'r nos)



Bydd y cwch yn rhedeg bob dydd tan fis Hydref o 11am tan 5pm, os bydd y tywydd yn caniatáu. Mae pob taith yn para 40 munud. Cymeradwyir y cwch gan yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

CHWILOTA

Tymer y Daliwr Gwningod



Aeth yr wythnosau diwethaf heibio ar wib, a phrin fu'r amser a gefais i fynychu'r archifdy i ymchwilio ymhellach i rai o'r testunnau a ymddangosodd yn yr 'Eco' dros y rhifynnau diwethaf. Byddwch amyneddgar! Erbyn hyn daeth mwy o wybodaeth am rai o'r pynciau rheini, a rhaid didol a dethol er mwyn eu crynhoi'n erthyglau ar gyfer eu cyhoeddi. Daeth ymholiadau a gwybodaeth newydd i'm llaw hefyd a gobeithiaf, dros fisoedd y gaeaf, roi hanes diddorol gŵr ieuanc o Lanrug a enillodd fedal am wrhydri yn Ne Affrica. Ond am y mis hwn, rhaid bodloni ar hanes:

Tymer y Daliwr Cwningod

Ar ddydd Mercher cyntaf o Hydref 1879 cynhyrfwyd tref Bangor gan y newydd fod dyn wedi mynd i orsaf yr heddlu i'w 'roddi ei hunan i fyny dan amgylchiadau galarus.' Thomas Williams oedd y gŵr hwnnw, daliwr cwningod ar Stâd y Penrhyn, ac un a adnabyddid gan bobl yr ardal fel Twm Penhower.

Yr hyn a ddywedodd Twm yng ngorsaf yr heddlu ym Mangor oedd iddo adael dyn yn farw ger ei dŷ rhwng pentrefi Minffordd a Phant Caerhun. Aeth Sarjant Jones yno ar unwaith, a Dr. Lloyd gydag ef. Dilynodd Dr. Richards yn fuan wedyn a chawsant gorff dyn yn gorwedd ym môn clawdd yn farw. Trefnwyd i symud y corff i Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor i aros trengholiad. Mân archollion yn unig oedd i'w gweld ar wyneb y trancedig.

David Jones, chwarelwr pump ar hugain oed o dyddyn Pwllbudr ym mhentref Ebenezer (Deiniolen heddiw) oedd y gŵr ifanc a fu farw. Fe'i disgrifiwyd fel gŵr o bum troedfedd a phedair modfedd o daldra, gyda gwallt du, cyrliog a mwstas tenau. Roedd yn gwisgo 'sgidia 'elastic sides', trowsus melfared, gwasgod a chôt lwyd fer a het Jiwiw crow.

Cynhaliwyd y cwest am bedwar o'r gloch bnawn Sadwrn yn swyddfa'r heddlu ym Mangor gyda Mr. Dew, cyfreithiwr o Landudno, yn cynrychioli Thomas Williams.

John Rowland Hughes, certiwr o Ebenezer, oedd y tyst cyntaf. Adroddodd iddo gyfarfod David Jones ym Mangor y prynhawn arbennig hwnnw, ac iddynt fod yn llymeitiant gyda'i gilydd: 'nid oeddem yn bur feddw nac ychwaith yn sobr,' meddai. 'David oedd y gwaethaf o'r ddau ohonom.' Cychwynnodd y ddau am Ebenezer tua hanner awr wedi dau yn y pnawn, gan deithio ar y ffordd o Finffordd am Bant Caerhun. Gerllaw tŷ Thomas Williams, clywodd weiddi: 'Myn diawl, rhaid i mi gael llonydd yn fy nhŷ fy hun.' Daeth Thomas Williams allan o'r tŷ, ond nid oedd John Hughes yn ei adnabod. Gofynnodd David iddo 'Pwy sy'n dy atal rhag cael llonydd?' 'Y chi,' oedd ymateb Twm. Yna, heriodd David ef gan ddweud, 'Tyrd yma, i mi gael dy saethu fel saethu brân.'

Daeth Twm ato, tynnu ei gôt a tharo David yn ei frest â'i ddwrn. Disgynnodd David a chiciodd Twm ef yn ei ben ac yn ei ochr. Yna, trodd ar John Hughes a rhoi dwy gic iddo yntau. Rhedodd John Hughes i ffwrdd gan ddweud wrth bobl eraill a gyfarfu ar y ffordd fod dyn wedi ymosod arno.

Bachgen pymtheg oed o Bentir oedd y tyst nesaf. Adroddodd Hugh Roberts ei fod yn dychwelyd o Ffair Aber, ac iddo gyfarfod David Jones a John Hughes a chyd-gerdded â hwy at Finffordd. Barnai fod y ddau yn feddw.

Roedd Henry Prichard yr un oedran â'i gyfaill o Bentir, ond yn tystio nad oedd David Jones na John Hughes yn feddw iawn. Clywodd Thomas Williams yn cymell y ddau i fynd yn eu blaenau oddi wrth ei dŷ. Roedd Henry a Hugh wedi troi i mewn i dŷ yn ymyl cyn gweld yr ymladd.

Ceidwad helwriaeth y Penrhyn oedd John Mitchell a dystiodd i Twm ddod ato tua pump o'r gloch y pnawn hwnnw yn dweud iddo fod mewn ffrae â dau ddyn arall. Tra roedd yn adrodd yr hanes daeth gwraig Twm i'r tŷ i ddweud fod un o'r ddau wedi marw. Aeth y tri yn ôl i gartref Twm a chael David Jones yn farw. Cynghorodd John Mitchell i Twm fynd ar ei union at yr heddlu i adrodd yr hanes, a dyna a wnaeth. Pan holwyd ef ynglŷn â chyflwr Twm, dywedodd y cipar na allai fod yn feddw oherwydd bu'n gweithio drwy'r pnawn, ac ymwelodd ag ef dair gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd Ellen Williams yn wraig briod ac yn byw y drws nesaf i Twm. I'w thŷ hi yr aeth y ddau fachgen o Bentir. Honnai ei bod wedi dychryn gormod i gofio fawr ddim am y digwyddiad.

Rhoes Twm Penhower dystiolaeth yn y cwest hefyd. Dywedodd ei fod yn sefyll yn nrws ei dŷ yn paratoi i ymweld â John Mitchell ynglŷn â'i waith. Sylwodd ar ddau ŵr ifanc gerllaw yn 'gwneud stumiau arno' ac yn ei alw yn 'scamp'. Dywedodd yntau wrthynt am fynd yn eu blaenau am adref neu fe ddaethai yno i 'gicio eu tinau.' Daeth ei wraig hefyd i'r drws i erfyn ar y ddau i fynd ymaith, ac i beidio â chodi trwr. Gwrthododd y ddau a dywedodd David Jones y buasai yn ei saethu fel saethu brân. Aeth Twm allan drwy'r giât a tharo David Jones yn ei frest. Yna trodd at John Hughes ond dywedodd hwnnw ei fod yn rhy wael i ymladd, a rhedodd i ffwrdd. Aeth Twm a'i wraig yn ôl i'r tŷ.

Wrth gloi dywedodd y

Crwner ei fod yn anfodlon iawn ar dystiolaeth y ddau fachgen a'r gymdages. Roedd yn amlwg nad oeddent yn adrodd y cyfan o'r hyn a ddigwyddodd. Nid oedd unrhyw gadarnhad fod Twm wedi cicio David Jones ond roedd yn ofynnol arno, yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r cwest, i draddodi fod dynladdiad wedi digwydd.

O flaen ei well yn ddiweddarach yn y flwyddyn, dedfrydwyd Twm i bedwar mis o garchar. Roedd y rheithgor o'r farn fod Twm wedi cicio David Jones. Beirniadwyd y cymdogion yn hallt iawn — ym marn y rheithgor doedd dim posibl iddynt fod wedi peidio â gweld neu glywed y ffrae, ac yr oedd eu hymddygiad yn gywilyddus 'yn gadael i'r corff orwedd am amser maith heb gynnig cymorth.'

Yr Ardd

Fala, Fala filoedd! Dyna hanes yr ardd amser Diolchgarwch a'r adar yn cael hwyl arnynt. Mae dywediad gan y Sais 'An apple a day keeps the doctor away.' Mae yna lawer o bethau y gellir ei wneud hefo afalau heblaw eu bwyta yn amrwd. Wrth gwrs, mae teisen afalau gyda hufen yn boblogaidd iawn. Gellir eu stiwiio a'u cadw yn y rhewgister erbyn y dyddiau y byddant yn brin yn y gaeaf.

Un rysait gen i yw siytni y gellir ei ddefnyddio yn syth a dyma fo:

Hanner peint o finegr; hanner pwys (neu fwy) o afalau; 4 owns o nionod; 2 owns o resins; 2 owns o sultanas; 2 neu 3 owns o siwgr brown; hanner llond llwy de o sunsur mân; mymryn o fwstard; pinsiad o halen a mymryn o bupur cayenne.

Malu'r afalau a'r nionod yn fân a'u coginio yn y finegr yna ychwanegu'r gweddill o'r cynnwys a'u berwi am 4/5 munud nes y bydd wedi tewychu a'i gadw mewn potiau. Mae'n barod i'w fwyta yn oer.

Dyna un defnydd o afalau a wnafl i. Mae cael sudd afal yn ddiod hyfryd hefyd.

**Mae'r Nadolig yn nesau . . .
Archebwch eich coed, rithau celyn,
addurniadau bwrdd, blodau ffres ac
anrhegion blodau rŵan . . .**

**Ffrwythau a llysiau ffres ar gael fel
arfer hyd y noson cyn y Nadolig.
Defnyddiwch eich siop leol — mae'n
llawer mwy cyfleus!**



'STAR'

**Ffrwythau, llysiau a
bwydydd iach
57 Stryd Fawr
Llanberis 870555**

SGIPIAU ANFRAG

(ROBIN THOMAS)

- ★ DOMESTIG A MASNACHOL
- ★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- ★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- ★ GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: 870753 neu 660118

Symudol: 0498 636559

TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

IEUAN ELLIS JONES



Ddiwedd Medi daeth y newydd trist fod Ieuan Ellis Jones wedi'n gadael. Nid oedd wedi bod yn dda ei iechyd ers peth amser, serch hynny, sydyn ac annisgwyl oedd y cyhoeddiad am ei farwolaeth.

Cafodd ei eni a'i fagu yn y Groeslon. Collodd ei fam pan oedd ond chwech oed, ac fe'i magwyd gan ei nain. Derbyniodd ei addysg yn ysgol gynradd y Groeslon, Ysgol Sir Pen-y-groes ac yna cael ei dderbyn i Goleg y Fferyllwyr, Lerpwl. Fe'i galwyd i fyny i'r fyddin ac yno bu'n gwasanaethu fel fferylllydd yn yr RAMC. Priododd ei ffrind ysgol Morfydd Thomas o'r Groeslon. Cynhaliwyd y gwasanaeth mewn capel Saesneg yn Lerpwl ond fe arweiniwyd y seremoni briodasol gan weinidog o Gymro. Ymgartrefodd y ddau yn Nantwich lle y ganwyd Judith. Symudodd y teulu i Compton House Llanberis yn 1950 ac yno y ganwyd Robin.

Cyn dechrau tymor pêl-droed 1963-64 un o swyddogaethau mwyaf dymunol y diweddar John Roberts (Halford Hill) a'r diweddar Lal Jones oedd mynd i'r Fferyllfa ar y Stryd Fawr, cnocio ar y drws a gofyn i'r Fferylllydd hynaws a phoblogaidd a fyddai'n fodlon i gysylltu ei hun â'r clwb pêl-droed fel Llywydd. Cytunodd Ieuan Ellis Jones. Ychydig

wyddai bryd hynny y byddai'n cadw'r cysylltiad yn ddi-dor am 36 mlynedd! Bu'n noddwr hael dros y blynyddoedd — ond aeth gamau ymhellach. Yn dilyn ei ymddeoliad gwelwyd Ieuan neu Jos Chemist fel yr adnabyddid ef ag anwylder yn torchi ei lewys fel aelod gweithgar o'r pwyllgor ac yn presenoli ei hun ymhob gêm o'r bron. Yn wir fe'i gwelwyd sawl tro yng nghae Ffordd Padam llynedd yn cefnogi'r Darans. Roedd yn Llywydd heb ei ail. Yn haeddiannol iawn fe'i gwnaed yn Llywydd Er Anrhydedd Am Oes. Gwerthfarwogodd yr anrhydedd yn fwy na dim.

Bu'n aelod a chefn i sawl mudiad arall yn y pentref. Bu pwyllgor y Canrifal yn ffodus o'i gefnogaeth. Ef, oherwydd ei gwrteisi a'i agosatrwydd fyddai'n gyfrifol am dywys y gwŷr a'r gwragedd gwâdd i'r carnifal gan eu cyfarwyddo parthed eu dyletswyddau. Ymhryfrydai yn llwyddiant carnifal Llanberis a'i sylw blynyddol o'r llwyfan fyddai 'Dwi'n siŵr fod 'na fwy yma eto 'leni!' Manteisiodd Côr Meibion Dyffryn Peris ar ei ddoniau cerddorol. Roedd yn chwarae'r organ yn Capel Brynrhos pan oedd ond wyth oed. Mwynhaodd hwyl a miri cymdeithas y côr yn fawr iawn a bu aelodau'r côr yn werthfawrogol o'i bresenoldeb yntau. Bu y tynnu coes rhyngddo ef â'i ffrind Roy Griffith yn ddjarhebol ac yn fodd i godi calon yr aelodau ar adegau digon dyrys. Yn aml iawn cyfeirir yn y côr at y dyddiau yna fel 'Dyddia Wil Ni' bythgofiadwy! Bu hefyd yn gyn-Gadeirydd a chyfarwyddwr Rheilffordd Llyn Padarn; Cadeirydd Clwb y Lleng Brydeinig; cyn-Gadeirydd Cronfa R.H. Owen ac yn aelod ffyddlon a thrysorydd Clwb Eryri. Bu ei garedigrwydd a'i hynawsedd yn y Fferyllfa, yn enwedig tuag at ambell un anghenus yn anfesuradwy a chyfrinachol. Byddai drws

Compton House ar agor bob amser er y byddai'r siop ar gau. Ni fynnai'r fferylllydd i neb boeni'n ddianghenraid am foddion.

Fe'i collir mewn sawl carfan o'r gymdeithas yn Llanberis, fe gollir yr hiwmor iach a nodweddaei ei bersonoliaeth a'r wên siriol na phyla amser fyth.

Cynhaliwyd yr angladd ar Hydref 2il pryd y

gwasanaethwyd yn y cartref a'r fynwent yn Nant Peris gan y Parchedig John Pritchard. Daeth nifer fawr o drigolion y fro a chyfeillion i'r Nant i dalu eu teyrnged olaf ar ddiwrnod eithriadol o stormus. Y cludwyr oedd Robin Ellis Jones, Martin Hibbert, Jonathan Bonick, J.E. Thomas a Roy Griffith. Yr ymgymmerwyr oedd E.W. Pritchard, Llanberis.

JOHN WILLIAMS



Ysgol Dolbadarn. Fel cymydog, treuliais oriau yn ei gwmni tra bu'n gweithio yng Nghartref yr Henoed ym Mron Eryri, ac fel cyfaill pan oeddwn yn arweinydd i Gôr Dyffryn Peris.

Gwerinwr oedd John, un wedi ei fagu yn agos iawn i'r pridd, a'i wreiddiau yn ddwfn yn y pridd hwnnw. Dyn ei filltir sgwar oedd a'i fywyd wedi nyddu o amgylch ei deulu, ei ganu a'i ardal. Yn ystod pob sgwrs byddai Catherine a'r hen blant acw yn cael blaenoriaeth a lle amlwg. Soniai yn gyson am y côr a'i ganu godoidog, a cheid sylwadau diddorol ganddo ar hynt a helynt yr ardal. Yn ystod yr ugain mlynedd y adnabûm John, cefais y cyfle i ddarganfod nodweddion a rhinweddau ei bersonoliaeth a'i gymeriad.

Cofiaf amdano fel cymeriad hamddenol. Dyma rinwedd brin iawn yn yr oes brysur, swllyd a seciwlwr hon. Roedd ganddo amser i aros, i sgwrsio ac i wrando.

Cymeriad hawddgar. Yr oedd John yn gymeriad hawddgar a'i ymarweddaiad yn adlewyrchu hynny. Cofiaf amdano yn weithiwr taclus a threfnus gyda gair da i hwn a llall ar ei fin bob amser.

Cymeriad hoffus. Gn ei fod mor barod i sgwrsio, mor barod i wrando ac mor gymwynasgar a hefyd mor hawddgar, ni ellid peidio â hoffi John. Roedd rhyw atyniad yn ei berson yn denu serch a hoffter a chredaf mai anwylddeb ei berson oedd yn gyfrifol am hyn, y gwerinwr hoffus.

Rhan o'r deyrnged a droddodwyd yn angladd John Williams, 'Rallt Goch a fu farw drwy ddamwain yn Llydaw ar Orffennaf 10fed, 1999.

Syfrdanwyd yr holl fro â'r newydd trist am y digwyddiad erchyll yn Llydaw. Bu'r amgylchiad yn ddigon i ysgwyd ein cymdeithas i'w seiliau, gan i John golli ei fywyd mor sydyn, heb unrhyw rybudd. Do, fe ddigwyddodd ac fe ddarfu bywyd ar amrantiad.

Diolchaf i aelodau o Gôr Dyffryn Peris a'u teuluoedd, ac yn arbennig i'r Parch Philip Hughes am fod yn gefn i Catherine yn ei loes a'i gwewyr mewn gwlad estronol bell.

Cefais y cyfle i adnabod John yn dda iawn fel rhiant, fel cymydog ac fel cyfaill.

Fel rhiant cefais bob cefnogaeth ganddo ef a'i briod tra yr oedd Delyth a Dylan yn ddisgyblion dan fy ngofal yn

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Blodau ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewis da o Lysiau Fferm
- ★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor yn y Caban nos Lun, 18 Hydref. Estynnwyd croeso gan y llywydd a chanwyd cân y mudiad. Croesawyd amryw o aelodau newydd. Llongyfarchwyd Alice Griffith a darllenwyd ei limrig buddugol allan o'r 'Wawr'. Archebwyd dyddiaduron a chardiau Nadolig.

Y wraig wadd oedd Emyllt Harker, Gerlan ac estynnwyd croeso cynnes iddi. Eglurodd beth yw Shiatsu lachaol, sef system iechyd o Siapan. Soniodd am y CHI, sef ynni bywyd sy'n llifo trwy'r corff, a bu'n siantio rhigymau yn sôn am yr ynni hwn a'r aelodau'n cymryd rhan mewn ymarferion.

Holwyd amryw o gwestiynau gan wahanol rai o'r aelodau a diolchwyd yn gynnes i Emyllt gan Marian Williams. Gwnaed y te gan G. Jones, J.C. Hughes a Buddug Jones. Ar 15 Tachwedd byddwn yn ymweld ag Antur Waunfawr. Croeso cynnes i bawb.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, 4 Hydref. Unwaith eto mwynhawyd Swper Cynhaeaf a baratowyd gan yr aelodau.

Y siaradwr gwadd oedd y Parchedig Gareth Parry. Difyr a hwyliog oedd gwrandio arno yn adrodd hanes ei fywyd. Diolchwyd iddo gan y Parchedig Tegid Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 1 Tachwedd pan fydd Miss Jean Moeller a Miss Margaret Matthews yn dangos sleidiau o'u gwyliau yn Madeira.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn y Caban nos Lun, 27 Medi. Estynnwyd croeso i bawb gan y llywydd, Y Parch John Pritchard a chroesawyd y gŵr gwadd, Y Prifardd Selwyn Griffith. Testun ei sgwrs oedd 'Talent Plentyn' a chawsom noson ddifyr iawn yn gwrandio arno yn sôn am rai o'i weithiau barddonol a'r modd y cyfansoddodd hwy. Soniodd yn arbennig am rai o'i ddarnau adrodd i blant a chawsom glywed llawer stori am blant Llanberis a Rhiwlas, a'u dywediadau pert. Mwynhawyd y

noson gan bawb a diolchwyd gan Mrs Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Hydref, pan ddisgwyliwn Mr D Whiteside Thomas, Llanrug atom i roi sgwrs. Y llywydd fydd Mrs Eirlys Williams.

CYNGOR EGLWYSIG: Cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Libanus nos Lun, 4 Hydref dan arweiniad y Parch Tegid Roberts. Cymerwyd rhan gan aelodau'r gwahanol eglwysi.

PLAID CYMRU:

Clwb 100, mis Medi:

£10: Mr Glyn Richards, 5 Tai Caradog; £5: Mrs Vera Parry, Bro Dawel.

DIOLCH: Dymuna Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau ac anrhegion tra bu dan lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd ar ôl dod adref.

DIOLCH: Dymuna Helen W Jones, 9 Tai Caradog ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Hefyd i'r meddygon a'r nyrsys o wardiau Conwy a Phrysor, Ysbyty Gwynedd ac i'r nyrsys lleol.

DIOLCH: Dymuna Mr Hugh Vaughan Evans, Bron Eryri, Llanberis (gynt o 3 Dinorwig Terrace) ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 95 ar Hydref 5.

DIOLCH: Dymuna Anwen a Kevin, Gwel Fynydd, Clwt-y-bont ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd Steffan, eu mab, tra oedd yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y FEDDYGFA: Mae cadair arbennig wedi cyrraedd y Feddygfa ar gyfer cleifion ardal Deiniolen a'r cylch. Clyfwynwyd y gadair gan deulu y ddiweddar Mrs Annie Thomas, 4 Bro Deiniol, er cof amdani. Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd yn hael ar achlysur marwolaeth eu mam a gobeithio y bydd y gadair yn esmwyth ac yn gymorth i holl gleifion yr ardal.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Nôl yn Neiniolen am dro

Mae y geiriau hyn i bobl Deiniolen a Chlwt-y-bont i ddiolch iddynt am y croeso cynnes a dderbyniais pan ddychwelais i'r hen gynefin am y tro cyntaf ers byw yn Lloegr am dros hanner can mlynedd. Roedd pawb mor garedig, gresyn nad oedd gennyf amser i ymweled â phawb ond mi geisias y tro nesaf.

Roedd yno lawer o chwerthin a deigrin neu ddau wrth gofio yr hen ddyddiau gyda hen gyfeillion a chyfeillion newydd hefyd. Dweud straeon am ein hieuenctid a'r rhyddid i grwydro.

Un bore braf es am dro i fyni Caledffrwd a'r afon yn sisial ganu ar fy chwith. Es heibio i'r giat oedd yn dilyn i'r sglefr, y lle fyddem yn gwneud tyllau yn ein dillad, ymlaen ac fe roddais fy llaw yn y nant a roddodd ei henw i Lon Haearn, a dechrau yn gyflym i fyni yr Inclên. Ond roedd rhaid i mi arafu reit fuan. Cyrhaeddais y giat gyda fy ngwynt yn fy nwrn. Edrychais i lawr ar y pentre a oedd i mi erioed, ac a fydd am byth — cartref. Wrth gwrs mae llawer wedi newid ond ddim yn amlwg o lle roeddwn i yn sefyll. Mae'r Eglwys ar y bryn, ond mae llawer mwy o feddau yn y fynwent. Felly hefyd yn Macpelah. Rwy'n cofio eistedd ar y wal pan oedd yna gnebrwn a gwrandio ar y canu ardderchog oedd yn adseinio o gwmpas Bigil. Mae Disgwyllfa wedi mynd — dim mwy o'r Seiat na'r Band of Hope. Wedi diflannu hefyd mae yr hen ysgol fawr. Y diwrnod y caeodd hi fe gerddon ni trwy'r pentre, pob un yn cludo llyfrau i'r ysgol newydd. Mae'r Llyfrgell yn ddi-newid heblaw am yr enwau newydd ar y gofodail. Roedd y bechgyn druan yna yr un oed â mi.

Es wedyn i Cae Tai lle roeddwn yn byw pan yn blentyn. Mae'r tŷ wedi ei ddymchwel a'r tai eraill. Rwyf yn cofio pob un yn enwedig y teuluoedd yn Cae Maen, lle treuliais y rhan fwyaf o fy ieuenctid dymunol a

diangof. Mae yno o hyd, mae'r coed wedi mynd o Moel Rhiwen ond mae'r olygfa o'r Wyddfa ac Elidir yn hardd o hyd hefyd.

Un diwrnod cefais wahoddiad gan dri boneddwr i fynd dros fil o droedfeddi i fyni'r chwarel. Roeddynt hefyd yn hen chwarelwyr a chodai ofn a syndod yn fy nghalon pan ddywedent am y perygl a'r anghysur a ddiodeffent. Ond buont yn sôn hefyd am hwyl pob cyfri mawr. Mae yn ffaith fod eu gwybodaeth a'u cyfarwyddyd wedi helpu i ofalu am ddiogelwch y gweithwyr yn yr Hydro Electric Plant. Yr unig beth yr wyf fi yn ei ddeall am hwnnw yw bod dŵr o'r Marchlyn yn rhoi trydan!!

Mae yr olygfa i lawr i Lanberis ac i ddechrau Pas Nant Peris ac o'r Wyddfa — gyda'i brenhines — yn arswydus o'r uchter yma.

Rwyf yn teimlo fod yr ardal yn edrych ymlaen i'r dyfodol gyda gobaith penderfynol a bod pawb yn gweithio efo'i gilydd er mwyn pawb. Un enghraifft o hyn yw y Cae Ffwrtbol a hefyd y Band gyda'r cwt newydd (beth ddigwyddodd i'r twll roeddwn yn gwasgu trwodd i'r hen felin?)

Y diwrnod cyn i mi ymadael yr oedd enfys mawr ar draws yr awyr. Rwyf yn sicr mai arwydd oedd y byddaf yn ôl cyn bo hir, fel y dywedodd Eifion Wyn:

Mae'n werth troi'n alltud ambell dro A mynd o Gymru fach ymhell Er mwyn cael dod i Gymru'n ôl A medru caru Cymru'n well.

Diolch eto i chwi oll. Byddwch yn fy nghofio fel Dorothy Walker.

DRAENOG



Glywsoch chi hanes dynes o Ddeiniolen, wedi cael noson dda yn y Bull penderfynodd fynd yn ôl i fyni gan feddwl ei bod wedi gadael ei bag yno, heb gofio newid gyntaf o'i choban a'i slipars.

PRYD I BAWB Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG

MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

SAFLE AILGYLCHU CYMUNEDOL: Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o'r nifer o finiau llawn o bapur a chaniau a gasglwyd o'r safle yn ystod y flwyddyn Ebrill 1998 - Mawrth 1999.

Fel y gwelwch ar y graffiau amgaeedig, mae pwysau Bethel yn galonogol iawn, gyda'r biniau yn llenwi'n rheolaidd.

Mae ffigyrau y caniau hefyd yn ardderchog. Mae'n cymryd miloedd o ganiau i lenwi un bin, ac mae pum bin mewn blwyddyn yn faint sylweddol iawn. Yn amlwg mae trigolion y pentref yn frwdfrydig iawn tuag at warchod amgylchedd y gymuned.

Dangosir gyda'r ffigyrau yma fod gan safleoedd ailgylchu wedi'u lleoli mewn cymunedau gwledig gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at dargedau lleihau gwastraff y llywodraeth. Byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn barod i annog trigolion y pentref i gario ymlaen i'n neud llawn ddefnydd o'r safle, fel bod eich pwysau yn parhau i gynyddu.

Hoffwn ddiolch i chi ar ran Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn, a cofiwch fod croeso i unrhyw un ohonoch gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiad neu sylwadau am y safle.

Yn gywir, Jane Evans, Swyddog Datblygu a Marchnata.

YR EISTEDDFOD: Cynhelir Cystadleuaeth Dawnsio ar nos lau, 4 Tachwedd yn y Neuadd am 6 o'r gloch. Enwau cystadleuwyr (unigol a phartïon) i'r is-ysgrifenyddes Eirlys Williams erbyn dydd Llun, 1 Tachwedd. Os am gystadlu yn yr adran Gelf a Chrefft, dewch â'ch cynnyrch i'r Neuadd ar ddydd Gwener, 5 Tachwedd rhwng 3.15 a 4.30pm. Testunau 'Siarad Cyhoeddus': (a) Manic y Mileniwm; (b) Rygbi sy'n rheoli; (c) Radio Cymru - Radio'r werin; (ch) Awê i'r frenhiniaeth.

Cynhelir yr Eisteddfod dydd Sadwrn, 6 Tachwedd yn y Neuadd am 1 a 6 o'r gloch.

CLWB BRO BETHEL: Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn Festri Bethel gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn llywyddu. Anfonwyd

cofion cynnes iawn at Ysgrifennydd y Clwb, sef Mrs Bessie Ellis, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Mr Robin Jones, 'Age Concern' oedd y gŵr gwadd a chafwyd sgwrs addysgiadol iawn ganddo ar y gwaith sydd yn cael ei gyflawni, ac hefyd beth sydd i'w gael gan 'Age Concern'. Diolchwyd iddo gan Mr Jenkin Griffith, Mrs Mary Griffiths, Mrs Olwen Jones a Mrs Betty Jones oedd yng ngofal y te.

CLWB 200 Y NEUADD: Enillwyd Medi oedd: £20: Idris Morris, Fachell (26); £10: Alice Jones, Sycharth (70); £5: Lona Jones, 6 Stad Eryri (78); Iolo Morgan, 7 Tan-y-cae (68); Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd (65); Iolo Davies, Llangefni (23); Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); Sheila Roberts, Darwin, Tan-y-buarth (105); Ian Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd (9); Eryl Roberts, Bryn Rhedyn (67). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn neuadd yr Ysgol Gynradd ar Hydref 134 pryd y cafwyd noson hwyliog yng nghwmni Meirion McIntyre Huws.

Longyfarchwyd Mrs Margaret Eckley ar enedigaeth wyres a chydymdeimlwyd â Mrs Nora Parry ar golli ei modryb.

Diolchwyd i'r gŵr gwadd ar ran y gangen gan Mrs Ann Elis. Y gwestwagedd oedd Mrs Eirlys Sharpe, Mrs Gwen Hughes a Mrs Margaret Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Deilwen Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, 10 Tachwedd yn Neuadd yr Ysgol Gynradd am 7.30 pryd y byddwn yn paratoi ar y Nadolig gyda Deilwen, Edwina a Margaret.

DIOLCHGARWCH: Fwrw'r Sul, 17 Hydref cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch yn eglwys i'r pentref. Yn Y Cysegr cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul ar y thema diolch am y pum synwyr. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd anerchiad difyr gan Manon Gwynedd. Casglwyd £106 tuag at gronfa Eilir Williams. Ddydd Llun cynhaliwyd cyfarfod gweddi brynhawn a nos.



Aelodau Ysgol Sul Cysegr a fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth diolchgarwch.

Fore Sul cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul ym Methel gyda'r plant yn cymryd rhan a chafwyd anerchiad gan y Parch Gwynfor Williams. Gwnaed casgliad at Tŷ Enfys, Ysbyty Gwynedd. Y GYMDEITHAS: Agorwyd tymor y Gymdeithas nos Fawrth 19 Hydref yn Festri'r Cysegr dan

lywyddiaeth Mrs Glenys Griffiths. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Lleisiau'r Gweunydd. Diolchwyd i'r parti gan y Parch Gwynfor Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri'r Cysegr nos Fawrth, 16 Tachwedd yng nghwmni Mr Geraint Lloyd Owen.

CARTREF YMDDEOL DEINIOLLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION



**ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?**

Cysylltwch ag

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

WALIO

A

FFENSIO

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN

**GWERTHU
- TRWSIO**

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Llythyr o'r America

Cambria
Wisconsin
March 9th 1885

Anwyl Frawd,
Derbynniais lythyr oddiwrthyt
ers tair wythnos, ond yr oeddwn
yn disgwyl un wedi hyny
oddiwrthyt cyn dy ateb, ond
hwyrach mai y diwrnod y
byddaf wedi anfon hwn i'r *post* y
byddaf yn derbyn un
oddiwrthyt yn ol. Felly y mae
wedi bod amryw o weithiau er
pan wyf yma.

Ysgrifennais air at Thomas yr
wythnos ddiweddaf, felly gelli
eddlw mai tlodaidd iawn ydyw
urnaf am ddefnydd llythyr, ond
fel y byddaf yn myned ymlaen
daw rhywbeth newydd i'r
meddwl, neu o'r hyn lleiaf felly
y mae wedi bod lawer gwaith
arnaf. Y mae arnaf achos i
ysgrifennu yn fuan yna rhag ofn
i chwi anfon llythyrau i mi a
minnau heb fod yn Cambria i'w
derbyn. Yr wyf wedi penderfynu
symud ychydig bach oddi yma
achos rwy'n credu y byddaf yn
fy mantais symud oddiyma am
dymor. Y lle yr wyf am symud
ydyw lle o'r enw Utley, tua 20
milltir oddi yma i chwarel
granite. Yr wyf yn gobeithio y
caf waith yno, neu o'r hyn leiaf
ceisiaf hynny. Yr wyf am fynd i
fynny yno rhywbryd yng nghorff
y mis hwn i edrych am waith.
Os caf fachiad yno, bydd yno le
da iawn am flwyddyn neu
ddwy. Y maent yn gwneud
arian da iawn yno, ac y mae
arnynt angen mawr am
chwarelwyr yn y fath yna o
waith. Y mae gwaith *granite* yn
beth sydd yn talu yn dda iawn
drwy y wlad. Y maent yn cael o
£2 and a half i £4 y dydd
ynddynt, ac 'of course' nid wyf
ond ffwl aros yma am lai o'r
hanner, onid wyf?

Hwyrach y byddwch yn synu
yna fy mod yn newid y dull yr
oeddwn wedi dechrau arno pan
ddeuthum yma gyntaf, ond
hwyrach mai troi o'r ffordd yr
wyf i fyned yng nghynt am y lle
rwy'n cyrchu ato trwy rhyw
lwybr arall, achos gwyddost fod

modd myned i laweroedd o
fannau ynghynt wrth droi o'r
ffordd gychwynol trwy lwybrau
a chroesi y cauau. Nid wyf, wrth
wneud hyn, yn rhoddi heibio
ffarmyddiaeth, na, rwy'n credu
nad oes yn bosibl cael bywyd
hapusach na bywyd ffarmwr yn
America, yn feddiant o ffarm
fechan yn eiddo ei hun ac yn glir
oddiwrth y byd, heb fod arno yr
un *cent* o ddyled. Y mae
miloedd yn difetha eu hunain
am byth yma drwy brynu
ffermydd heb ddigon o *supply*
wrth eu cefnau, ac oherwydd
hynny, yn gorfod *mortgagio*, a
suddo i for ddyled, sef llogau. Y
mae hynny yn beth na wnaif mo
hono byth. Pan fyddaf am
ffarm, byddaf am un yn glir
oddiwrth llogau beth bynnag.
Peth ofnadwy yw rhedeg i afael
y byd a hynny mewn gwlad fel
hon. Y mae yn ofynnol fod yn
wyliadwrs iawn i edrych pa le i
roddi ei droed i lawr yma, a pha
fodd rwy'n credu eich bod chwi
yna yn meddwl yr un fath a mi,
ac os y byddwch yn
cymeradwyo fy ngwaith, neu o'r
hyn leaf y byddwch yn fy
ngweled yn gwneud peth doeth.
Rwy'n credu fod rheswm da
dros mewn peth fel hyn.

Yr wyf wedi bod yn holi
cynghorion llawer un yn y
Prairie yma, mewn perthynas i
pa ffordd i gymeryd, ond nid
oedd yr un ohonynt yn rhoddi
cyngor yr un fath. Yr oedd rhai
yn fy nghyngori i fyned i'r *west*
am dir newydd, eraill yn fy
nghyngori i beidio, drwy
ddweud rhesymau da, eraill
eisiau i mi brynu mewn lle wedi
ei drigianu yn dda, yna ei
rhentu, eraill eisiau i mi fyned i
ffarmio gyda rhai ar *Share*, ac
eraill eisiau i mi fyned ar *Rent*, a
llawer dull arall. Ond un a
roddodd gynghor yn union fel
ag yr oeddwn yn meddwl oedd
y goreu fy hunan, ac yn ol y
cynghor hwnnw yr af am ei fod
mor debyg i fel yr oeddwn i yn
meddwl fy hunan. Credaf mai
mymppy fy hunan pia hi
ddigon mewn gwlad ag y mae

cymmaint a wahanol farnau. Yr
wyf yn meddwl mai dyma un o
rinweddau America os
rhywfodd yw peidio a *dependio*
ond ychydig iawn ar eu gilydd,
pobl *independent* iawn yw'r
Yankees yma. Wel, mi welaf fy
mod yn mynd i hwyl pregethu
felly rhaid imi ymatal a throï at
rywbeth arall. Cefais lythyr
oddiwrth Marg. P. Hafodlas
ddoe, ac yr oeddwn yn deall
oddiwrth ei llythyr ei bod yn
hoffi ei lle a'r wlad yn fawr
iawn. Y mae gyda'r un rhai er
pan y mae yn y wlad yma, sef
chwaer i'w mam yng nghyfraith.
Myfi yw y perthynas agosaf
sydd ganddi yn y wlad yma, a
hithau yw y berthynas agosaf
sydd gennyf innau o ochr fy
mam, ond y mae ochr fy nhad
mor lliosog a Brian Captain.
Cofia ddarllen cymmaint ag
sydd weddus ar fy llythyrau i
William Roberts, a chofia fi atto
ef a Mrs Roberts.

A glywais ti John Ellis yn
darllen yr Epistol a gafodd
oddiwrth Jemima yn dweud
hanes Lizzie? Na, dim llawer o
berylg mi gredaf. Anfonodd un
ers tua mis bellach a dywedodd
ar ol iddi ddweud peth ofnadwy
am dani os byddai yn dewis cael
mwy o'i hanes yr anfonnai
ychwaneg etto.

Fe wnaeth John Ellis gyfeiriad
attaf fi yn y llythyr a anfonodd
yma ddiweddaf, ac oherwydd
credwyf fod gennyf innau hawl i
gyfeirio at ei uchelder am yr un
rheswm ag y gwnaeth yntau
gyda mi. Dywedodd am
ddarllen y tryth oedd ganddo er
fy adeiladaeth, yn wir,
adeiladaeth pur wael i mi
ydoedd, ac felly mi gredaf i bob
Yankee neu Yanken. Credaf
hefyd os ydyw John Ellis yn
adeiladu ar sylfaen mor salw ag
oedd ganddo yn ei lythyr y bydd
ei holl adeilad bychan yn
cwmpo yn chwilfriw i'r llawr
rhyw ddiwrnod. Y mae yn ceisio
adeiladu ar le rhyw gorsiog o
lawer, a bydd wedi suddo yn ei
'gors o anobaith' y mae'n sefyll
arni. Buaswn yn meddwl ar y
cyntaf ei fod yn un o Brif
weinidogion Toriaidd Llanberis
yna, ond wrth fyned ymlaen

credais mai meddwl y mae am
fod yn ymgeusydd Toriaidd yn
yr etholiad agosol. Y mae
'Gladstone' braidd mor uchel
yn America ag ydoedd
'Garfield' ei hunain, felly rhaid
iddo ymosod arnmo mewn
rhyw wlad dramorol arall.

Peth arall a ddywedodd
ydoedd, 'fod yn dda ganddo
weled peth a gwedd mor ffafriol
arnynt o dan arlywiaeth y
llywydd neydd Cleveland'. Ai
tybed na wyddai y brawd nad
oedd yn dechrau ar ei waith o
lywyddu hyd dydd Mercher
diweddaf, 4th March. Hwyrach
fod hynna yn ddigon iddo ar ei
adeiladaeth yntau, pe buasai
angen buaswn yn dweud mwy o
lawer. Pan fyddaf yn clywed
ymosod mawr ar Gladstone
bydd fy 'nghrochan fach yn
berwi drosodd yn y munyd'.

Paid ag ysgrifennu yr un gair
hyd nes y byddi wedi cael un yn
ddyddiedig ym mis Ebrill.
Hwyrach y clywch oddiwrthyt o
Cambria ar ol yr epistol hon, lle
bynnag y byddaf ar ol y 1st of
April fe anfonaf fy address
ichwi.

Y mae y gauaf wedi myned
heibio ac y mae haul tecaf y
Gwanwyn yn tywynnu
unwaith yn rhagor, ond nid yr
eira wedi ein gadael, na, y mae
yna drwch mawr o eira. Gallaf
ymffrostio fy mod wedi treulio
gauaf yn Cambria na welodd
neb moi oerach sydd yn fyw
yma. Bu o'r Nadolig hyd
bythefnos yn ol heb i'r fargod
gymmaint a dyferu un tropyn o
gwbl.

Terfynaf yn awr gan ddisgwyl
y bydd hyn o eiriau yn eich cael
yn iach a chysurus a derbyn
dithau ynghyd a'r teulu oll fy
nghofion caredicaf.

Ydwyf, dy frawd

Owen.

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa**

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**


**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

**Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael**

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gangen yn Hafan Elan nos Lun, 4 Hydref. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Kath Jones a Mrs Menna Roberts. Darllenwyd cofnodion o gyfarfod y flwyddyn ddiwethaf a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad gan Mrs Dorothy Jones am yr holl gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Cafwyd adroddiad gan y trysorydd, Mrs Joyce Ransom, am y sgyllfa ariannol a diolchwyd iddi ac i'r swyddogion i gyd gan Mrs Jones am eu gwaith ar hyd y flwyddyn. Ail-etholwyd y swyddogion ond etholwyd Mrs Sandra Birbeck fel Aelod Cofrestru gan fod Mrs Dorothy Jones am roi ei swydd i fyny. Yn gofalu am y baned roedd Mrs Enid Taylor a Mrs Joyce Ransom, hwy hefyd oedd yn gofalu am y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwyneth Roberts. Diolchwyd i'r gwsteion gan Miss Meira Williams. Tynnwyd rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf a phasiwyd i gael Gwasanaeth o Garolau nos Lun, 6 Rhagfyr. Doedd dim arall i'w drafod a therfynwyd y cyfarfod gyda'r Gras. Cyfarfod nesaf nos Lun, 1 Tachwedd.

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON: Mawr ddiolch i bawb a cefnogodd y Sêl Cist Car ar 1 Hydref. Cafwyd noson lwyddiannus o gysidro'r glaw mawr.

Enillwyr y raffl oedd Potel Win-Eluned Jones; Llyfr - Rebecca Parry; Bag Nofio - David Fleetwood; Ffram - Edwina Foulkes; Potel Win - Catherine Roberts; Darlun - Doreen Roberts; Ffram - Anne Reine; Olew Bath - Einir Gwyn; Potel Win - Aiden; Fframiau - Edwina Foulkes; Daliwr Cannwyll - John Wyn; Stationery Set - Cery Brymer; Stationery Set - Ann Reine.

MENTER FACHWEN: Am ddau ddiwrnod ym mis Medi bu gwirfoddolwyr o gwmni ICELAND yn rhoi help llaw i gwmni Menter Fachwen i wneud gwaith yng nghefn Tŷ Llundain.

Roedden nhw yno fel rhan o gynllun 'Busnes yn y Gymuned'

ble mae cwmni mawr yn rhoi cymorth i gwmni llai. Gwnaethpwyd gwelliannau i'r gweithdy sydd yno eisoes a chliriwyd y darn tir yn ymyl y tŷ gwydr a'i wneud yn barod i osod twnel polithin ar gyfer planhigion. Hefyd paratowyd lle i barcio cerbydau.

Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud wedi bod o gymorth mawr i brosiect diweddaraf Menter Fachwen. Mae'r hyfforddeion yn gwneud gwaith garddwriaethol yno ac yn gwneud gwaith arlwyio yng Nghaban y Cwm.

Mae'r ganolfan yn Ganolfan Hyfforddi Gydabyddedig ac mae'r staff yn ddiolchgar am bob cefnogaeth.

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaeledd byr bu farw Mr John O. Roberts, Ty'n Ffridd ar 21 Medi yn 73 mlwydd oed. Roedd yn ŵr tawel ac yn gymwynaswr mawr, ei brif ddiddordeb oedd garddio a bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Gabriel ar hyd ei oes. Bu ei angladd ar 25 Medi gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel ac yna yn dilyn ym mynwent Llanrug gyda'r Parch Philip Hughes a Mr Derek Jones yn gwasanaethu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod



Gwaith caled yng nghefn Tŷ Llundain.

Croeso i'r Agoriad Swyddogol

Bydd Dafydd Wigley AC/AS yn agor y Swyddfa Bost, y Siop a'r Caffi yng Nghwm-y-glo yn swyddogol ar 19 Tachwedd am 3.30 ac mae croeso cynnes i bawb yn y pentref ddod i ddathlu'r datblygiad pwysig hwn. Fel mae darllenwyr *Eco'r Wyddfa* yn gwybod, mae Menter Fachwen wedi agor caffi cymunedol, Caban y Cwm, yn ddiweddar ac mae grŵp gwirfoddol arall, Cyfeillion y Cwm, wedi bod yn brysur yn paratoi at ail-agor Swyddfa Bost a siop gymunedol yn yr un adeilad. Mae'r ddau grŵp yn cydweithredu'n agos â'i gilydd, ac wedi penderfynu cynnal agoriad swyddogol ar y cyd.

Dywedodd Paul Rowlinson, ar ran Cyfeillion y Dwm: 'Mae'r cydweithrediad hwn gyda Menter Fachwen a chyda'r gymuned ehangach yn bwysig iawn i lwyddiant y Fenter ac mae

cynnal agoriad swyddogol ar y cyd yn fodd i nodi hynny yn gyhoeddus. Rydym yn falch bod Dafydd Wigley wedi cytuno i agor y cyfleusterau hyn ac yn gobeithio y bydd cynifer ag sy'n bosibl o'r pentrefwyr yn dod i ddathlu'r achlysur hefo ni.'

Dywedodd Alex Proctor, Gweithiwr Datblygu Cymunedol Menter Fachwen: 'Rydym ni ym Menter Fachwen yn falch o fod yn rhan o'r bartneriaeth weithredol sydd wedi esgor ar agor y Swyddfa Bost. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn gychwyn ar gydweithrediad pellach yn y datblygiad cymunedol rydym yn ceisio ei hyrwyddo. Edrychwn ymlaen at weld Cyfeillion y Cwm yn chwarae rhan amlwg mewn datblygiadau pellach i'r dyfodol.'

Gellir defnyddio gwasanaethau'r Swyddfa Bost yng Nghwm-y-glo o ddydd Iau, 25 Tachwedd ymlaen.

Mary, Elfed a Dora, Mark a Sara yn eu profedigaeth drist.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofio gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Joyce Jones a Mr Iorwerth Jones sydd yn Ysbyty Gwynedd. **ADREF O'R YSBYTY:** Dymunwn wellhad llwyr a buan i Anita, Awelon a Wyn Rowlands,

Glan'rafon ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.


DIOLCH: Dymuna Mrs Mary Roberts, Elfed, Dora, Mark a Sara ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbynwyd yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Wyn Rowlands, Glan'rafon ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a'i gydweithwyr am y cardiau, arian, anrhegion, galwadau ffôn a'r ymweliadau tra bu yn Ysbyty Gwynedd ar ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

BRODWAITH CREADIGOL: Bydd dosbarthiadau Brodwaith Creadigol yn cael eu cynnal yng Nghaban y Cwm am 7 o'r gloch bob nos Lun dan arweiniad Moira Ellis, Brynrefail — y cyfarfod cyntaf nos Lun, 25 Hydref. Gobeithir y bydd digon o ddiddordeb i ddal ati drwy'r gaeaf.

Yr unig dâl am y dosbarth yw £1.50 am y pecyn deunyddiau y bydd pob un yn ei gael i wneud y gwaith brodwaith.

Am fwy o fanylion cysyllter ag Alex ar (01286) 872014 neu Moira Ellis ar 871223.

 **Cig Bethel** 

**OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS**

★
**PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS**


★
**PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI**

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Ymwelwyr Pwysig Iawn



Mr. Derek Williams, Mr. Andro Griffiths, Mr. Alun Wyn Evans,
Mr. Twm J. Roberts a Mr Hugh R. Jones

'Nôl ym mis Gorffennaf bu pum gŵr pwysig iawn yn ymweld â disgyblion blwyddyn saith.

Cyn chwarelwyr ein hardal oeddynt, wedi dod i rannu atgofion am fywyd y chwarel gynt

Cafodd y plant amser i wrando arnynt yn hel atgofion cyn mynd ymlaen i'r neuadd i roi perfformiad iddynt o'u gwaith hwy ar y chwarel.

Mwynhaodd y chwarelwyr a'r disgyblion y profiad yn fawr iawn a diolch o waelod calon iddynt, Mr Derek Williams a Mr Andro Griffiths o Ddinorwig; Mr Alun Wyn Evans o Ddeiniolen a Mr Twm J. Roberts a Mr Hugh R. Jones o Lanberis.

Llwyddiant i Gyn-Ddisgybl

Derbyniodd Matthew Garnett (Bethel) wobwr ariannol fel un o enillwyr Ysgoloriaethau'r Ysgol Beirianeg Electroneg a Systemau Cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Dyfarnwyd yr ysgoloriaeth iddo am ragori ar y gofynion mynediad a osodwyd gan yr Ysgol. Bydd yn astudio cwrs BSc mewn Systemau Cyfrifiadurol gyda Seicoleg.

Rydym, fel ysgol, yn ymfalchïo yn ei lwyddiant a dymunwn pob lwc iddo yn ei gwrs.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Gorffennaf

1. Meira Pritchard, Llanrug (50)
2. Mair Williams, Bethel (38)
3. Yvonne Roberts, Gaerwen (49)

Awst

1. V.W. Davies, Brynrefail (41)
2. Betty Roberts, Gaerwen (53)
3. Nan Rowlands, Bethel (66)

Medi

1. Maureen Williams (14)
2. D.W. Evans, Penisarwaun (7)
3. Merlynn Shelley, Fachwen (36)



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwg na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

NEWYDDION O YS

Blas ar fywyd Coleg

Dydd Mercher, yr ail ar hugain o Fedi, cafodd y criw Lefel A Astudiaethau Crefyddol gyfle i fynychu Ysgol Undydd ym Mangor. Cafwyd amrywiaeth o ddarlithoedd a oedd yn canolbwyntio ar y cwrs Lefel A. Ac yn y prynhawn cafwyd cyfle i weld sleidiau o Israel. Cafwyd rhagflas o fywyd coleg ym Mangor.

Ddydd Gwener, yr wythfed o Hydref, aeth criw Lefel A Cymraeg o dan arweiniad Mrs Gwenno Bebb i'r Ysgol Undydd yn y Brifysgol ym Mangor. Cafwyd amrywiaeth o ddarlithoedd a phob un ohonynt

yn cael eu harwain gan un o ddarlithwyr amryddawn yr Adran Gymraeg. Bu Jason Wlaford Davies yn darlithio ar y gerdd 'Gwladys Rhys' gan W.J. Gruffydd yn ogystal â sôn am 'Werthfawrogi Llenyddiaeth'. Bu'r Ddr Branwen Jarvis yn trafod themâu barddoniaeth Gerallt Lloyd Owen, a chafwyd darlith ddifyr ar 'Un Nos Ola Leuad' gan y Dr Gerwyn Williams. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus dros ben ac yn ddi-os fe fydd o gymorth i bawb gyda'u gwaith Lefel A.


Jennie Lyn Morris, 13

Profiad Gwaith

Diolch i'r cyflogwyr a gefnogodd y disgyblion eleni eto. Dyma rai o'r gweithwyr:



David yn Hughes Gray Fitlock, Llandygai



Dylan yn Dimensiwn 4, Caernarfon

Cwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael.
Bwydlen Bar a Restaurant.
Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

YSGOL BRYNREFAIL

Gêm gynta'r bechgyn 'fenga

Ysgol Brynrefail v Ysgol Dyffryn Nantlle

Dechreuodd y gêm yn ddisglair ar ôl i Stephen Davies sgorio gôl gyntaf Brynrefail, daliodd amddiffynwyr Nantlle yn galed tan iddynt dynnu eu llygaid oddi ar y bêl, a dyna hi yng nghefn y rhwyd, Guto Llywelyn oedd y sgoriwr. Aeth pethau'n ddrwg i Frynrefail ar ôl i Gareth Jones fynd oddi ar y cae hefo problem i'w ben-glin, ond daliodd Joseph Simpson yr amddiffynwyr mewn trefn, a chyn pen dim sgoriodd Deian ei gôl gyntaf i'w gwneud hi'n 3-0. Daeth y bedwaredd eiliad cyn i'r chwiban hanner amser, yr ail i Stephen Davies.

Dechreuodd yr ail hanner yn dda ar ôl i Ifan a Kyle ddod ar y cae i gymryd lle Carwyn a Gareth. Ar ôl i Dafydd Meredydd gael pas wych gan Gruffudd Pritchard, doedd o ddim yn mynd i fethu, felly 5-0. Ar ôl i'r bumed ddod roedd rhaid i un arall ddod a dyna be ddigwyddodd. Sgoriodd Guto Llywelyn ei ail o'r gêm a dyna ni wedi sicrhau ein lle yn ail gêm cwp Cymru. Ar ôl ymdrech dda gan Nantlle, Brynrefail ddaeth yn fuddugol.

Guto Llywelyn
Blwyddyn 7



Neville yn D.M.M., Llanberis

Murluniau i gofio am John Evans

Yn ystod yr wythnos draws gwriciwlaid ddiwedd tymor yr haf 1999 bu disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Brynrefail yn brysur yn creu murluniau i gofio am John Evans o Waunfawr. Gosodwyd cystadleuaeth gan Antur Waunfawr yn gofyn i ddisgyblion greu murlun i goffau 200 mlwyddiant y cyfnod yr aeth John Evans allan i America i chwilio am yr Indiaid Cymreig. Yn ôl yr hanes roedd disgynyddion i Madog yn bodoli fel llwyth a enwid yn Fadogwys. Aeth John Evans allan i America i chwilio amdanynt a daeth o hyd i lwyth y Mandaniaid. Bu'n byw hefo nhw am gyfnod.

Camp y disgyblion oedd creu murlun oedd yn adlewyrchu ei daith. Ar ôl clywed hanes John Evans ac edrych ar ddarnau o waith celf gan y Mandaniaid, aeth y disgyblion ati i greu eu lluniau eu hunain. Roedd y disgyblion yn peintio symbolau Indiaidd a golygfeydd o hanes John Evans ar ddarnau o ddefnydd. Wedyn roedd y cyfan yn cael ei wnio at ei gilydd i greu 3 carthen fawr a dau ddarn o waith papur.

Enillodd y disgyblion y wobr gyntaf o £200 am y gwaith. Bu cyn-ddisgyblion celf yn cynorthwyo gyda'r gwaith. Cwblhawyd y gwaith mewn 3 diwrnod ac roedd pob disgybl ym mlwyddyn 7 wedi cymryd rhan.

Gobeithio y bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn Llyfrgell Caernarfon ym mis Tachwedd, ynghyd â'r gwaith y mae Meic Watts wedi bod yn ei wneud fel artist preswyl yn Ysgol Gynradd Waunfawr.

Mae Gŵyl John Evans a drefnwyd gan Antur Waunfawr yn sicrhau codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r hanes ac maent wedi elwa o'r profiadau maent wedi eu cael.

Paid â Bod Ofn



Y tîm buddugol yng nghanol cyffro'r recordio a neb llai na **Mega** yn y cefndir! Erin Eifion, Eurig Roberts, Rachel Morris ac Owain Williams.

Yn rhifyn mis Medi o'r Eco fe gofiwch i ni sôn am lwyddiant criw o'r ysgol yng nghwis pop Radio Cymru (rhanbarth y Gogledd). Wedi'r llwyddiant yng Nglan Llyn cafodd y tîm, a charfan o gefnogwyr, gyfle i fynd

i'r brif-ddinas i gystadlu yn y rownd derfynol yn erbyn pencampwyr y De. Felly ar Fedi 24, yn y bore bach, cychwynnodd y daith hir, hir...

Cafwyd cyfle cyn cystadlu i ymweld â phrif atyniadau Caerdydd. Adeilad y Cynulliad, y canolfannau siopa ac wrth gwrs, Stadiwm y Mileniwm!

Daeth amser y gystadleuaeth ac o'r rownd gyntaf dangosodd tîm Brynrefail eu gwybodaeth cyffredinol anhygoel am y sîn bop, Cymru a thu hwnt. Yn naturiol felly, ar ddiwedd yr ornest Brynrefail oedd ar y brig — eto! Dyma'r **trydydd tro yn olynol** i Frynrefail gyflawni'r gamp. Roedd hyd yn oed y troellwr, Dafydd Du, yn fud!

Llongyfarchiadau gwresog felly i'r tîm o Flwyddyn 11 — Erin Eifion, Rachel Morris, Eurig Roberts ac Owain Williams — ac i'w cefnogwyr am wneud y diwrnod yn un cofiadwy. A fydd hi'n bosib eu trechu yng ngomest 2000 tybed?

Ein Taith Gerdded

Unwaith eto diolch i haelioni rhieni a chyfeillion yr ysgol bu'r daith yn llwyddiant mawr.

Aeth y mwyafrif o'r disgyblion i gerdded ar hyd Lôn Eifion ac er nad oedd y tywydd yn wych cafwyd hwyl fawr ar y daith.

Rhai'n hapus iawn wrth gyrraedd yn ôl at Glwb Rygbi Caernarfon, lle roedd y bysys i'n cludo'n ôl i'r ysgol ac eraill wedi blino'n lân!

Codwyd £2,500 ac aeth hanner i gronfa'r ysgol a'r hanner arall i gronfa cyfeillion yr ysgol fydd yn mynd tuag at adnewyddu y neuadd.

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r fenter.

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)

(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU

DODREFN : GRISIAU

GWAITH TURNIO

BLYCHAU CLOCIAU

BLYCHAU DAL OFFERYNNAU

BLYCHAU ARDDANGOS

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm

Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

AM BRYDAU TSINEAIDD BLASUS I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY

47 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 871840

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

PRIODAS: Yn ddiweddar yng nghapel Soar, Pen-y-groes, gyda'r Parchg Iwan Llewelyn Jones yn gwasanaethu a Mrs Jennie Roberts wrth yr organ, priodwyd Gwilym Eifion, mab ieuengaf Mr a Mrs William Owen Jones, Gwelaion, Crawia â Miss Catrin Morris, merch Mrs Menai Morris a'r diweddar Mr Dafydd Morris, Eryl, Ffordd y Brenin, Pen-y-groes.

Y morwynion oedd Nia Morris, Catrin Meri McAlinden, Gwen Angharad Prys, Gwen Angharad Roberts a'r gwas oedd Mr Llyr Gilmour Jones.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Woodlands Hall, Nefyn a threuliodd y cwpwl eu mis mêl yn Andora. Mae'r briodfab yn athro Gwyddoniaeth yn Ysgol Tryfan, Bangor a'r briodferch yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Bodedern, Ynys Môn. Bydd y ddau yn cartrefu ym Mhenrhosgarnedd, Bangor.

Dymunaidau da i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

CYDYMDEIMLWN yn arw â theulu Park Villa, Ffordd yr Orsaf yn dilyn marwolaeth Mrs Jennie Roberts. Anfonwn ein cofion at Geraint a lolo a'u teuluoedd.

Hefyd, bu farw Mr Emyl Roberts, Hyfrydle, Ffordd Crawia. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei wraig, Rhiannon, ei fam, brawd a chwaer.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Myfi Roberts, Rhos Plastirion a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt mewn galwadau, cardiau, rhoddion a llawer o gymwynasau eraill yn dilyn marwolaeth Mr Harri Roberts. Diolch yn fawr iawn.

GWAELEDD: Dymunwn wellhad buan i Mr John Wyn Owen, Llain Delyn a Mrs K Williams, Llain Gwta, Gwêl Fynydd. Mae Mr Owen yn Ysbyty Eryri am gyfnod ac mae Mrs Williams wedi cael damwain. Cofion gorau i'r ddau ohonynt. Dymunwn yn dda hefyd i Mrs M Roberts, Glan Moelyn sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

ar 12 Hydref gan y llywydd, Mrs Ann Ifans. Pleser oedd cael cwmni Mrs Eurwen Evans, sy'n enedigol o Gwm-y-glo ond yn byw bellach ym Mhorthcawl. Braf oedd clywed fod Mrs Jennie Williams yn dymuno'n dda i ni fel cangen ac yn anfon ei chofion atom.

Bwriedir cyhoeddi erthyglau gan aelodau sydd wedi dysgu Cymraeg yn 'Y Wawr' cyn y Nadolig. Os oes gan unrhyw aelod ddiddordeb cysyllter â Meirwen am fwy o wybodaeth.

Bydd y gangen yn dathlu'r Nadolig yn y Vaynol Arms, Nant Peris ar 14 Rhagfyr. Enwau ac arian (£8.00) i Olwen Huws yn y cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda.

Mr Gwyn Roberts o Hufenfa De Arfon oedd y gŵr gwadd y mis hwn a diddorol oedd gwrandio arno'n egluro sut y mae'r cwmni wedi datblygu ers ei sefydlu yn Rhydygwystl ym 1938. Cafwyd cyfle i wyllo fidio yn dangos sut mae'r cwmni yn sicrhau fod yr holl gynnyrch o'r ansawdd gorau posib. Mwynhaodd pawb y caws a gafwyd i'w brofi ar ddiwedd y noson.

Mrs Nesta Jones, mam Bryn Terfel, fydd y wraig wadd yn y cyfarfod nesaf. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

CYNGOR LLANRUG I WELLA'R MEYSYDD CHWARAE: Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar safle dau faes chwarae Llanrug yn ddiweddar, penderfynodd Cyngor Cymuned Llanrug fuddsoddi £3,600 ar wella'r offer a'u gwneud yn ddiogel. Bydd rhai o'r offer sydd wedi dod i ben eu hoes ac yn peri pryder o ran diogelwch yn cael eu symud o'r safle a bydd cadwynau newydd yn cael eu gosod ar y siglenni i'w hatal rhag cael eu camdrin gan rai plant hŷn. Bydd siglen newydd yn cael ei gosod i blant iau ym Maes Chwarae Glan Moelyn, gyda llawr diogelwch newydd o dani.

Dywedodd Paul Rowlinson, Cadeirydd y Cyngor: 'Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel ar sicrhau bod y meysydd chwarae yn ddiogel i'r plant. Rydym hefyd yn bryderus oherwydd fandaliaeth gan rai o'r plant hŷn. Trwy dynnu



Slan Pritchard, enillydd y Gadair a Geraint Iwan, enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Bentref Llanrug. Bydd manylion yr eisteddfod yn yr Atodiad Eisteddfodau yn y rhifyn nesaf.

rhai o'r hen offer a gwneud gwelliannau rydym yn hyderus y bydd y cyfleusterau hyn yn fwy diogel a deniadol i blant y pentref a'u rheini.'

PLAID CYMRU: Nos Fercher, 20 Hydref, cafwyd darlith ddiddorol gan Dewi Jones o Ben-y-groes ar y cerddor a'r botanegydd enwog, John Lloyd Williams.

Canolbwyntiodd y siaradwr ar ddiddordeb Lloyd Williams ym mlodau a phlanhigion Eryri, a'r gwaith arbennig a gyflawnodd gyda mwsoglau. Roedd yn fraint cael un o fotanegwyr blaenllaw Eryri heddiw yn sôn am un o naturiaethwyr enwocaf dechrau'r ganrif, a phrofodd y drafodaeth a'r sylwadau a ddilynodd y ddarlith bod y gynulleidfa wedi mwynhau'r noson.

Enillydd raffl y noson oedd Helen Parry.

Yn y cyfarfod nesaf, nos Fercher 17 Tachwedd, bydd Mary Vaughan Jones yn dod atom i roi hanes ei thaith ddiweddaraf. Cynhelir y cyfarfod ym Mhenisarwaun am 7.30 o'r gloch a bydd croeso cynnes i bawb.

LLANRUG

Tachwedd 24
Ffermwy'r Ifanc Eryri

Trin gwallt gan Ceri a Morus a Sioe Ffasiynau Pringles yng Ngwesty Seiont Manor am 7.30pm.

Tocynnau: £3.00
yn cynnwys paned
Ffôn: (01286) 831214

ARDDANGOSFA A FFAIR GREFFTAU
Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug
Dydd Sadwrn, 13 Tachwedd am 10.00am

Crefftwy'r Lleol yn Arddangos a Gwerthu
Cyfle am anrhegion Nadolig unigryw
Calendr 2000 - Hen luniau 'Bro'r Eco ar werth

Pris mynediad: £1 oedolion; 50c plant

Tynnir enwau buddugwyr y raffl fawr ar y diwrnod
Gwyliau i ddau yng Nghaerdydd
Elw tuag at Gronfa'r Sefydliad Coffa, Llanrug

CEIR
ADAM



HURIO PREIFAT
YN UNIG

LLEOL NEU HIRBELL

LLANBERIS
871539

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

Sion



Y BISTRO

HEFYD

Delibistro A DELI DOLIG
Ffoniwch am fanylion

WWW.WELCOME.TO/YBISTRO

FE FYDD YN DDOLIG CYN HIR!
FFONIWCH I GADW LLE I'CH PARTI



Blodau

o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300: Dyma restr yr enillwyr am fis Medi: 1. £40: M/s Karen Humphreys, Snowdonia Park Hotel; 2. £25: Morus Elfryn, Llwydiarth; 3. £10: Margaret Jones, Clyn Ceris.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd dechrau da iawn i dymor y gaeaf o'r Gymdeithas nos Lun diwethaf, gyda Mrs Mattie Hughes, Llanberis a Pharti Lliwedd yn ein diddanu. Roedd Mrs Carys Edwards o'r Parc y Bala gyda nhw hefyd, a chawsom wledd o'i chlywed hi, yn ei ffordd ddymunol, yn canu. Y Llywydd oedd Mr Humphrey Jones a diolchodd Mrs Margaret Owen i'r parti. Y mis nesaf ar 8 Tachwedd, Mr Gerallt Lloyd Owen fydd y siaradwr ar y testun 'Hwyl y Talwrn'. Noson dda iawn eto i ddod. Beth am ymuno â'r Gymdeithas eleni - mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu am y gaeaf. Tâl aelodaeth £3.00.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Mrs Eurwen Llywelyn Jones o Fethesda oedd y wraig wadd yn y Sefydliad yr wythnos diwethaf yn siarad am ei hymweliad â Stoney Creek yng Nghanaada gydag amryw o aelodau eraill o adran Gwynedd/Caernarfon o'r Sefydliad. Mynd yno i ddathlu sefydlu'r cyfarfod cyntaf gan mlynedd yn ôl yr oeddynt. Rhoddodd Mrs Jones yr hanes trosodd mewn ffordd hwyliog tros ben. Diolchwyd iddi gan Mrs Pat Parry. Y mis nesaf, 2 Tachwedd cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno.

CYFEILLION MARCONI: Nos Wener, 29 Hydref cynhelir cyfarfod o'r gymdeithas Cyfeillion Marconi yn y Ganolfan am 7.30 pan y ceir darlith gan yr Athro David Last. Sefydlwyd y gymdeithas hon i goffau a chadw'n fyw y cysylltiadau lleol â'r gŵr enwog. Cadeirydd y noson fydd Mr Gwilym O Williams, Fferm Bodhyfryd, Cadeirydd y mudiad sydd â chynrychiolwyr o blwyfi Waunfawr a Llanrug ar y pwyllgor. **DYMUNA Alma, Rob, Huw a Nan** ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu

profedigaeth o golli Mam a Nain annwyl, sef y ddiweddar Elizabeth Williams Jones (Bet). Diolch hefyd i bob un a gyfrannodd mor hael i Gymdeithas Gerdd William Matthias.

DIOLCH: Dymuna David a Nia Jones (15 Bro Waun) ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur geni eu mab bychan, Ioan Daniel.

PEN-BLWYDD PRIODAS: Llongyfarchiadau i Dewi a Beryl Jones, Dol-y-coed ar ddathlu eu Priodas Berl.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Bernard a Pat Parry, 1 Bryn Golau ar ddod yn daid a nain i wyres fach arall, Enlli Alaw, merch i Haf ac Alun a chwaer fach i Lowri. Mae hefyd yn or-wyres fach i Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Bryn Golau.

DATHLU PEN-BLWYDD: Bu Mrs M Jones, Pant Cae Haidd, sydd yng nghartref preswyl Y Foelas yn Llanrug yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 97 mlwydd oed. Llongyfarchiadau cynnes i chi Mrs Jones.

PRIODAS: Llongyfarchiadau i Rhiannon ac Andrew, Gwylfa ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Mae gan Rhiannon gysylltiad â'r pentref gan i'w thaid, y Parch T.J. Hughes, fod yn weinidog yng nghapel Croesywaun am gyfnod. **YN YR YSBYTY:** Anfonwn ein cofion at Mrs Catherine Williams, Tref Eilian a Mr Trevor Beech, Bronallt sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

AR Y TELEDU: Gwelwyd Eurwyn Thomas a Pryderi, Stad Tref Eilian ar y rhaglen 'Cerdyn Post' yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt am wneud mor dda.

DIOLCH: Mewn cyfarfod misol yr Henaduriaeth a gynhaliwyd yng nghapel Bethel yn ddiweddar, diolchwyd i Mr Arthur Ellis, Min y Nant am ei wasanaeth fel blaenor am 40 mlynedd.

CYDYMDEIMLO: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Iolo Huws Roberts, Bodrida yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

DYMUNO'N DDA: Dymunwn yn dda i Anwen Jones, Llwyn Afon sydd wedi cychwyn cwrs Technegydd Fferylllydd yn Ysbyty Gwynedd.

DARLITH MARCONI: Bydd Darlith Marconi ar hanes gorsaf di-wifr Marconi, Ceunant yn y Ganolfan, Waunfawr am 7.30yh nos Wener, 29 Hydref. Croeso i bawb.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn y Ganolfan, y Waunfawr ar 11 Hydref. Roedd y Cyng Vera Roberts a Clive James yn brsennol. Gan fod Cyngor Gwynedd wedi gwrthod torri'r tyfiant ar ochr ddwyreiniol y ffordd newydd i gyfeiriad Pontrug er mwyn cadw'r gweledydd yn ddiogel, bydd hyn yn arwain at y tyfiant yn achosi problem beryglus i draffig unwaith eto. Felly bydd y Cyngor yn pwyso am i led y torriad cylchol gael ei estyn yn ôl er mwyn cynnwys yr oll o'r hyn sydd dan reolaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, disgwylir y bydd wyneb ar y pafin wrth y rhodfeydd sy'n arwain at Bannant, Tryfan a Mur Matthew o dan gylch cynnal a chadw Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd. Erbyn hyn ceir ffram caead haearn newydd ar y gwli ger y gylchfan. Ar y llaw arall nid oedd yr esboniad am godi coedwig o arwyddion llwybrau cyhoeddus pren trwy'r ardal yn dal dŵr ac ym marn y Cyngor bu gwastraff mawr o arian cyhoeddus.

Penderfynwyd bod y Cyngor Cmuned yn derbyn y brydles gan Gyngor Gwynedd am gyfrifoldeb y lle chwarae newydd i blant bach. Gofynnir am gyfarfod gyda'r Pwyllgor Cae Chwarae ynglŷn â'r manylion cynnal a chadw.

Cefnogwyd cais cynllunio am le parcio yn Nelfryn, yn amodol fod y llain pafin arfaethedig yn cael ei amddiffyn ar gyfer y dyfodol. Nid oedd gwrthwynebiad am estyniad ar gyfer clwb newydd parhaol ger y pwll nofio yng Nghanolfan Glangwna.

Rhoddwyd y grantiau canlynol i fudiadau'r pentref: Cymdeithas Cae Chwarae - £150; Ysgol Feithrin y Bontnewydd - £50; Ysgol Sul y Pentref - £75; Mynwent Caeathro - £200.

Oherwydd pwysigrwydd Gwarchodaeth Gymdogaethol i ddiogelwch cymunedol, penderfynwyd gohirio'r mater tan

y cyfarfod nesaf. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno torri'r gordyfiant ar y grisiau i lawr i'r afon gyferbyn â Phont Afon Efail Bach.

PLYGU'R ECO: Gan nad oes adeilad addas yng Nghaeathro ar gyfer plygu'r Eco, ni fydd yn bosibl i ni gymryd ein cyfrifoldeb blynnyddol yn y pentref. Bydd Pwyllgor Gwaith yr Eco yn trefnu lleoliad arall ym mro'r Eco a gobeithio y bydd trigolion Caeathro yn medru teithio yno. Dosberthir llythyr i'r ffyddloniaid mewn da bryd.

SYMUD TAI: Erbyn hyn mae Alison a Graham wedi symud o 4 Tai Glangwna i garafan cyn, gobeithiwn, orffen eu cartref newydd yn Y Groeslon, Waunfawr, cyn y Nadolig. Preswlydd newydd y tŷ yw Arwel Griffiths, Anedd, Tai Brynteg gynt. Drws nesaf iddo y deiliad newydd yw Mark Bee o Gaernarfon.

PWYLLGOR CAE CHWARAE: Enillwyr y Tynfa Misol ar gyfer mis Hydref oedd:

£40: Brenda Anderson, Tafarn Bryngwna (53); £25: Richard Jones, Ger y Tŵr (68); £15: Wil Hughes, Cefn Gwern (48); £5: Helen Jones, Maes y Coed (76).

GWASANAETHAU'R CAPEL: Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod mis Tachwedd:

7: 2.00 - Parch W.R. Williams; 14: 5.30 - Parch Gwynfor Williams; 21: 2.00 - Parch W.R. Williams; 28: 5.30 - Parch Huw John Hughes, Pili Palas.

Cynhelir Ysgol Sul bob dydd Sul am 11 y bore.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE: Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar nos Lun, 15 Tachwedd am 8.00 o'r gloch yn Nhafarn Bryngwna. Cyfle i bawb ddweud eu dweud.

TAITH SIOPA DOLIG: Cynhelir Taith Siopa Dolig eleni i Ganolfan Parc Trafford, Manceinion ar ddydd Sadwrn, 27 Tachwedd. Gadael Caeathro am 8.30 y bore ac yn ôl erbyn 8 yr hwyr. Gellir archebu lle ar y bws trwy gysylltu â Jayne neu Tim Lloyd, Bodawel, Ffôn: 677785. Y pris fydd Oedolion - £5; plant o dan 16 £2.50.

IS-ETHOLIAD CYNGOR GWYNEDD: Oherwydd etholiad Eurig Wyn i Senedd Ewrop ar ran Plaid Cymru a'i ymddiswyddiad fel ein Cyngorydd Sir, cynhelir is-etholiad ar ddydd Iau, 4 Tachwedd. Pleidleisir yng Nghapel Caeathro. Yr ymgeiswyr yw John Gwynedd Jones (Plaid Cymru) a Gwilym Owen Williams (Annibynol).

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PRIODAS: Pob dymuniad da i Rebecca a'i phriod ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

URDD ADRAN BENTREF: Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn cychwyn nos Fawrth 2 Tachwedd yn y Neuadd Gymuned am 6.00. Tâl aelodaeth eleni fydd £4 i blant o Blwyddyn 2 i fyny. Cychwynnir y gweithgareddau gyda Noson o Ymaelodi a Gêm Bingo.

TRIP SIOPA: Trefnir trip i Gaer dydd Sadwrn, 4 Rhagfyr. Bydd y bws yn aros ar y ffordd adref i gael lluniaeth yn Traveller's Inn. Pris y bws yw £6. Enwau i Jean Jones (Ffôn: 872384). Bydd y bws yn cychwyn am 8 o'r gloch.

GWELLHAD: Anfonir ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref a da deall fod Mary Elliott yn gwella ac mae pawb yn cofio ati.

CINIO'R HENOED: Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y Noson Bingo. Diolchir hefyd i Bwyllgor Carnifal, Eglwys Santes Helen am eu rhodd haelionus iawn. Gwerthfawrogir casgliad hael Ysgol Sul Bosra hefyd yn dilyn eu gwasanaeth Diolchgarwch.

Cynhelir Ffair Nadolig, Tachwedd 12 yn yr Ysgol Gymuned am 6.30 tuag at gronfa Cinio'r Henoed.

YSGOLION SUL Y PENTREF: Bydd cyfle i'r plant gael ymweld â Theatr Gwynedd bawn Sul, 28 Tachwedd i fwynhau ffilm wedi'i hanimeiddio o dan y teitl 'Gŵr y Gwyrthiau'. Pris fydd £1.70 i blant a £3 i athrawon. Fe drefnir bws i gludo'r plant. Enwau i Elizabeth Jones a Jen Hughes, Aljen os gwelwch yn dda.

YSGOL SUL BOSRA: Fore Sul, 17 Hydref cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant. Braff oedd gweld llond set fawr o blant ifanc iawn, rhai uwchradd ac athrawon yn cynnal gwasanaeth arbennig o dan y teitl, 'Glas, glas blaned'. Neges y gwasanaeth oedd ar i ninnau warchod ein planed i'r fileniwm nesaf a sicrhau fod y drydedd blaned yn saff yn y drydedd fileniwm. Cyflwynwyd y casgliad hael tuag at achos da sef Cinio Nadolig Henoed y pentref. Edrychir ymlaen rwan am fynd i weld 'Gŵr y Gwyrthiau' i Theatr Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Mary Elliott ddiolch yn ddiffuant am y caredigrwydd arbennig a dderbyniodd wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch am y llu cardiau, rhoddion, blodau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Diolch o galon.

EISTEDDFOD BENTREF: Nos Wener 15 Hydref roedd Neuadd Gymuned Penisarwaun yn llawn i'r ymylon ar gyfer yr Eisteddfod Bentref. Dan arweiniad medrus a di-ffwdan Elizabeth Jones, Delyth Williams ac Eifion Harding cafwyd cystadlu brwd o 6 o'r gloch tan ymhell wedi hanner nos, gyda'r ddau feirniad ar gyfer y cystadleuthau llwyfan, Rhian Cadwaladr (Llefarydd) a Guto Puw (Cerddoriaeth) yn canmol safon uchel y rhai a ddaeth i'r brig. Llauer o ddiolch i'r beirniaid am eu sylwadau adeiladol fydd yn sicr yn gymorth i'r plant a'r hyfforddwyr yn y dyfodol, ac hefyd am fod mor barod i ymuno yn hwyl y noson wrth feirniadau'r cystadleuthau ysgafnach! Roedd cefnogaeth



Erin Eifion. Prif Lenor yr Ifanc, Eisteddfod Bentref Penisarwaun

Annette Bryn Parri i'r cystadleuwyr wrth gyfeilio yn amhrisiadwy. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb fu'n hyfforddi a chefnogi'r plant ond rhaid diolch yn arbennig i Marina Jones am ei gwaith arbennig yn hyfforddi'r lant iau yn ystod y sesiynau ymarfer.

Fel sy'n arferol bellach roedd plant Ysgol Gymuned Penisarwaun wedi bod yn brysur iawn dan oruchwyliaeth yr athrawon yn ysgrifennu ac arlunio. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i staff yr ysgol am eu gwaith caled a'u cefnogaeth i'r Eisteddfod. Roedd Sonia Edwards (Beirniad Llenyddol) a Margaret Jones (Beirniad Arlunio) yn nodi yn eu beirniadaethau eu pleser o weld safon y gwaith. Roedd nifer dda o'r plant cynradd ac oedolion wedi bod yn brysur gartref hefyd yn paratoi gwaith arlunio, ffotograffiaeth, gwaith llaw a choginio a feirniadwyd gan Anita Long. Unwaith eto yn ôl y beirniad roedd safon y rhai a ddaeth i'r brig yn uchel iawn.

Braff iawn hefyd oedd croesawu Eurgain Haf Ifans, un o blant y pentref sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, i fod yn Llywydd yr Eisteddfod. Mewn perl o anerchiad soniodd Eurgain am ei hatgofion hi o gystadlu yn yr Eisteddfod tra'n blentyn, a dyfynnodd o'i dyddiaduron plentyndod. Fel cyn-enillydd Tarian a Chwpan y Prif Lenorion cyflwynodd Eurgain Darian yr Eisteddfod i'n Prif Lenor Oedran Cynradd, Sioned Alaw Williams, a Chwpan yr Eisteddfod i'n Prif Lenor Oedran Uwchradd, Erin Eifion. Yn ôl sylwadau y beirniad llenyddol Sonia Edwards mae posibilrwydd cryf y bydd dwy arall o'r pentref yn dilyn ôl troed Eurgain ac yn enillwyr cenedlaethol yn y dyfodol.

Ar ddiwedd noson hwyliog a hapus talwyd y diolchiadau i'r llu o bobl weithgar yn y pentref gan Carys Jones, Cadeirydd Pwyllgor yr Eisteddfod. Fel ym mhob blwyddyn mae llwyddiant yr Eisteddfod yn llwyr ddibynnol ar frwdfrydedd a gweithgarwch nifer fawr o bobl. Hoffai'r Pwyllgor hefyd ddiolch i'r cymdeithasau, busnesau lleol ac unigolion sydd wedi cyfrannu'n ariannol tuag at yr Eisteddfod eleni.

EGLWYS SANTES HELEN: Dydd Sul 10 Hydref cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf. Yn y bore cafwyd gwasanaeth Cymun Teuluol gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Eu thema eleni oedd diolch am anifeiliaid a chafwyd cyflwyniad o Arch Noa a holl greduriaid y maes. Dathlwyd



Sioned Alaw. Prif Lenor yr adran cynradd, Eisteddfod Bentref Penisarwaun

yr Offeren a phregethwyd gan y Parch Gareth Parry. Rhoddir diolch i athrawon yr ysgol Sul a baratodd y plant. Yn y prynhawn cafwyd Gosber gyda'r Parch Gordon Owen, Bangor yn bregethwr gwadd. Arweiniwyd y gwasanaeth unwaith eto gan y Curad-mewn-gofal. Cafwyd gŵyl lewyrchus iawn a diolchir hefyd i bawb a roddodd o'u hamser a'u doniau i addurno'r eglwys mor hardd. Nos Lun 11 Hydref cynhaliwyd Ffair Cynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys a diolchir i bwb am eu cefnogaeth.

GŴYL SANT DEINIOLLEN: Nos Fwrth 23 Tachwedd am 7 o'r gloch cynhelir gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn Eglwys Santes Helen i ddathlu Gŵyl Sant Deiniolen, nawddsant yr hen blwyf (Llanddeiniolen). Roedd Deiniolen yn fab i Deiniol Wyn a sefydlodd Bangor. Ef hefyd yw Deiniolfab, nawddsant Llanddaniel-fab, Môn.

CYNHADLEDD DEONIAETHOL: Cynhelir Cynhadledd Deoniaeth Arfon yn Neuadd Goffa Pen-y-groes, nos lau 11 Tachwedd am 7.30pm.

CYNGOR PLWYF EGLWYSIG: Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Plwyf Eglwysig yn Neuadd yr Eglwys, nos lau 18 Tachwedd am 7pm.

GRŴP DRAMA: Cyfarfu'r Grŵp yn Neuadd yr Eglwys yn ddiweddar ac eisoes dewiswyd drama i'w pherfformio rhywbryd yn y dyfodol. Os oes pobl â diddordeb yn yr ochr 'dechnegol/setiau' byddem yn falch o gael eu cwmni yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Fercher, 10 Tachwedd yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun am 7 o'r gloch.

PWYLLGOR NEUADD: Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr lwcus oedd: 1. Jean Roberts, Tai Croesion; 2. Teulu Cynefin, Deiniolen; 3. Margaret Williams, Carrog. Nos Wener cynhaliwyd noson i ddathlu llwyddiant John Eifion ar ennill y Rhuban Glas. Ceir hanes a lluniau o'r noson yn y rhifyn nesaf.

LLONGYFARCHIADAU: i Mari Deiniol ar ennill llun o wobrau yn Eisteddfod Llanrug ac yn arbennig ar ennill Cwpan fel y llefarydd gorau yn yr Adran Cynradd. Hefyd Lois ac Alis, Gwyddfor ar eu llwyddiannau hwythau. Da iawn genod!

PLYGU'R ECO: Diolchir i'r ffrindiau a ddaeth i blygu'r Eco yn Neuadd yr Eglwys y mis diwethaf a'n diolch i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd. Gorffennwyd y plygu erbyn 7.40. Diolch am y cydweithrediad.

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys

Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)

Enterprises Limited

Ffordd Santes Helen

Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Daeth tymor y Gymdeithas i ben am eleni nos lau, Hydref 14 pryd y daeth cynulliad da ynghyd i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn y Festri. Y cadeirydd oedd Alice Williams a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Rhian Jones, 3 Trem Eilian. Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i ŵr gwadd y noson sef Dei Tomos, Nant Peris. Treuliwyd noson bleserus yn ei gwmni yn sôn am ei deithiau ar dri chyfandir. Trwy gyfrwng cyfres o sleidiau godidog a sylwebaeth fywiog ac addysgiadol cafwyd blasu ffordd o fyw y brodorion ar y daith i Timbaktu, mwynhau golygfeydd unigryw y Grand Canyon a phrofi ehangder mynyddoedd yr Himalaya. Diolchwyd am noson arbennig i gloi'r tymor gan Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Gofalwyd am y lluniaeth gan Dilys Jones, Cytir a Carol Houston, 2 Trem Eilian. Cafwyd Pwyllogor ar y terfyn dan lywyddiaeth Verna Jones i ymdrin â rhai materion angenrheidiol. Gan fod y chwiorydd wedi agor y drws i'r brodyr fynychu'r cyfarfod ers tro a'r Gymdeithas wedi mynd o nerth i nerth, pasiwyd mai priodol fyddai cyfeirio ati o hyn ymlaen fel Cymdeithas y Capel. Cafwyd gair o ddiolch gan yr ysgrifennydd Lowri Roberts Williams am ymateb yr aelodau a'r gefnogaeth ddangoswyd i'r Gymdeithas unwaith eto eleni. Mynegwyd gair o ddiolch i'r swyddogion presennol ynghyd â'r trysorydd Ellen George am eu gwaith gan Alice Williams. Etholwyd y swyddogion canlynol i weithredu am y flwyddyn 2000: Llywydd Jennie Hughes, Bryn Parc; Ysgrifennydd Mair Wyn Davies, Ael y Glyn; Trysorydd Dafydd G. Ellis, Gweledfa.

Yn ystod y mis trefnwyd casgliad blynyddol tuag at Gymdeithas y Beiblau gan Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog ac Ifanwy Jones, Rhandir. Casglwyd y swm o £71.

YR HEN YSGOL RAMADEG: Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Festri nos lau, 23 Medi wedi ei drefnu gan y Cyngor Sir sydd erbyn hyn yn berchnogion yr adeilad a'r tir cysylltiedig o'i gwmpas. Croesawyd y

gynrychiolaeth gref o'r pentrefwyr gan y Cynghorydd Pat Larsen ac eglurwyd cefndir y cynlluniau ar gyfer y safle gan Sioned Williams a Dewi Hughes o'r Adran Gynllunio. Oherwydd y dirywiad enfawr yn ansawdd yr adeilad presennol, bydd yn hanfodol ei ddymchwel ac adeiladu o'r newydd adeilad fydd yn cynnwys o ddeg i bytheg o unedau ar gyfer gwahanol grefftiau, gyda siop, caffi, toiledau a maes parcio. Cafwyd gair ymhellach gan Ted Sylvester, Glanffrwd a oedd yn cynrychioli grŵp o grefftwyr lleol a oedd yn dangos cryn ddiddordeb mewn datblygiad o'r fath.

Ar derfyn y cyfarfod etholwyd grŵp llywio o ddeg o blith y pentrefwyr i fod yn rhan o'r trafodaethau parthed y datblygiadau arfaethedig, sef y Cynghorydd Keith Jones, John Meirion Morris, Dafydd G. Ellis, Gwyn Hefin Jones, Dafydd Williams, Geraint George, Tim Sylvester, Catrin Thomas, Lowri Roberts Williams a Liz Mead. Cyfarfu'r grŵp nos lau 7 Hydref pryd y trafodwyd natur yr adeilad newydd, pwysigrwydd cyflenwi anghenion lleol a'r bwriad o baratoi holiadur a ddosberthir yn yr ardal i roi cyfle i bawb gyflwyno eu syniadau ar y defnydd priodol o'r unedau o fewn yr adeilad.

EGLWYS BRESBYTERAIDD BRYNREFAIL: Trefn yr oedfaon am fis Tachwedd

7: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 5.30; 14: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 10 y bore; 21: Mr David Williams, Bethel am 5.30; 28: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 2 y pŵn.

Gwaith Newydd yn yr Hen Ysgol

Yn adran newyddion pentref Brynrefail ceir hanes y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghapel Brynrefail i drafod y datblygiad arfaethedig ar safle hen Ysgol Ramadeg Brynrefail. Llwyddwyd i gael nawdd sylweddol drwy Strategaeth Ardal y Lechen i ddatblygu'r safle ar gyfer sefydlu gweithdai newydd ar gyfer busnesau bach

a chynhenid. Prif fwriad y strategaeth yw dod a budd economaidd gwirioneddol i'r ardal.

Dewiswyd deg cynrychiolydd yn y cyfarfod i drafod manylion y cynllun gyda chynrychiolydd o Gyngor Gwynedd a threfnwyd cyfarfod o'r grŵp yma ar gyfer nos lau 7 Hydref. Adroddwyd yn y cyfarfod bod pryniant y safle wedi'i gwblhau a chaniatad cynllunio wedi ei roi i'r datblygiad yn amodol i'r adeilad newydd gynnwys rhyw nodwedd o'r hen ysgol. Bydd yr holl ddatblygiad yn costio tua £800,000, gyda'r arian yn dod o goffrau'r Cyngor Sir, WDA a'r Cynulliad.

Bu cryn drafod ar ddyluniad yr adeilad ar gyfer y gweithdai newydd ac anghenion y defnyddwyr posib. Cofynnwyd i'r Pensaer baratoi dyluniad amlinellol ar sail y drafodaeth ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Pwysleisiwyd yr angen i ddod o hyd i ddefnyddwyr lleol ar

gyfer y gweithdai ac i adnabod eu hanghenion. Mae'n wybyddus eisoes bod un grŵp cydweithredol o artistiaid a chynllunwyr yn dangos diddordeb yn y safle, ond mae'n hollbwysig bod yr ardal gyfan yn ymwybodol o'r datblygiad yma a'r cyfle sydd ar gael ar gyfer sefydlu gweithdai neu ganolfan bwrpasol ar gyfer busnesau amrywiol. Gobeithir cael cyfleusterau yn yr adeilad ar gyfer defnyddio'r dechnoleg newydd. Bwriad y Cyngor Sir yw gwahodd cynigion am yr Unedau yn syth ar ôl cwblhau adeiladu. Bydd rhaid i'r defnyddwyr gael eu syniadau a'u cynlluniau busnes yn barod erbyn hynny.

Mae'r grŵp llywio yn bwriadu paratoi holiadur er mwyn casglu gwybodaeth a syniadau yn y cylch ar gyfer y datblygiad diddorol hwn felly, os oes gennych syniadau ar gyfer defnydd o'r Unedau rhwch wybod trwy'r holiadur.

Ddoe . . . cyn torri . . . a chyn plannu'r coed



Anfonwyd y llun hwn atom gan Dewi Ellis, Field Terrace, Llanberis. Tybed pryd y tymwyd y llun? Roedd y lôn heibio Rhesdai Efrog a Fictoria a'r Faenol dipyn culach bryd hynny! A phan dynnwyd y llun nid oedd sôn am y coed (a gafodd eu torri y llynedd) ar ochr y Parc. Ond nid yw'n lun cynnar iawn ychwaith, gan fod tai Maes Derlwyn i'w gweld ar y dde.



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

UNDEB Y MAMAU: Drwy haelioni y Rheithor a'i wraig, yn y Rheithordy y cynhaliwyd y cyfarfod misol bawn dydd Mawrth Hydref 5. Ein Rheithor arweiniodd ni mewn gweddi ac ef hefyd estynnodd groeso i'r gŵr gwadd, sef Mr Hugh Richard Jones. Treuliwyd amser difyr iawn yn ei gwmni pan adroddodd englynion Cymraeg di-rif a hefyd egluro hen ddywediadau am y tywydd ac anifeiliaid ac yn y blaen. Roedd yr aelodau i gyd wedi mwynhau ei sgwrs yn fawr iawn.

Cyfeiriwyd at farwolaeth Mrs Gertrude Ann Hughes gynt o Hafod Wen, ac estynnwyd ein cydymdeimlad at Dennis ei gŵr, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bryn Seiont. Mrs Bet Hughes a Mrs Clara Roberts oedd yn ymorol am y baned a diolchwyd iddynt hwy a Mr Hugh R Jones gan Mrs Nan Owen ac eiliodd Mrs Audrey Evans. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

PRIODAS: Ar ddydd Sadwrn, 2 Hydref yng Nghapel Coch, priodwyd Rhiannon, merch Ann a'r diweddar Selwyn Pritchard, Madryn ag Andrew, mab Dorothy a Dennis Williams, 23 Stryd Fawr. Gweinyddwyd gan y Parchedig John Pritchard gyda Mrs Iona Jones wrth yr organ.

Cynhaliwyd y wledd briodas yn y Bistro, Llanberis. Bydd Rhiannon ac Andrew yn ymgartrefu yn 'Gwylfa', Waunfawr. Hoffai'r ddau ohonynt ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt. Diolch yn fawr i bawb.

CYMDEITHAS EGLWYS ST PERIS A ST PADARN: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Eglwys St Padarn nos Iau 7 Hydref gyda Mrs Anne Parry-Jones yn llywyddu. Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad y Parch Gwynfor Williams. Croesawyd y gŵr gwadd, y Parch Iorwerth Jones-Owen o Gaernarfon ynghyd â thair aelod newydd i'r Gymdeithas. Cafwyd noson gartrefol a hwyliog iawn gyda Mr Owen yn trafod ei bwnc — 'Hiwmor' — gydag enghreifftiau o'r gwahanol fathau o ffraethineb sydd yn gysylltiedig â gwahanol

rannau o'r wlad a'r gymdeithas. Dymunwyd adferiad i lawn iechyd i amryw o'r aelodau sydd yn wael yn eu cartrefi ac i Mrs Jean Roberts sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Diolchwyd i Mr Owen ac i'r gwestwragedd, Mrs Gracie Roberts a Mrs Buddug Hughes gan Mrs Bet Hughes. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Roberts a Mrs Hughes gan Mrs Kate Owen. Terfynwyd y cyfarfod trwy gydadrodd y Gras.

PLAS PENGWAITH: Hydref 18 cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Helen Greenway yn canu'r piano trydan a Tracey Hall yn canu. Rydym yn brysur yn paratoi arm y Nadolig. Mae stondin yn y cartref yn gwerthu amryw o bethau Nadoligaidd gyda'r raffl ac enwi doli a thedi.

Bydd Ffair Nadolig eleni yn disgyn ar ddydd Sadwrn, 11 Rhagfyr o 1.30 ymlaen.

Ar 5 Tachwedd, bydd gennym arddangosfa tân gwyllt yn y Cartref am tua 5.30.

Hoffai swyddogion a staff y Cartref ddiolch yn fawr iawn i Mrs Bet Hughes a Mrs Myfanwy Davies am drefnu bore coffi i'r Cartref yn y Bistro ddiwedd mis Awst. Hefyd i Mr D Roberts a'r staff am y lluniaeth ar y bore.

Wedi dod adref o'r ysbyty mae Mrs Bessie Owen a Mr D Whitaker. Croeso yn ôl.

Wedi dod i aros am gyfnod mae Mrs A Morris, Deiniolen a Ms O Price, Cwm-y-glo. Dymunwn groeso cynnes iddynt.

Yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Tachwedd roedd Mrs Beryl Jones, Mrs Dilys Evans, Mr Thomas A Pritchard a Mr Thomas Williams. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Gyda Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol Ms Nonn Williams, Mrs A.L. Jones, Mr B. Jones, Swyddogion Ardal, Mrs V. Martin, F. Williams, S. Williams adran hyfforddiant ym Maentwrog. Cyflwynwyd Tystysgrifau i Mrs Ch. Williams, Swyddog Mewn Gofal y Cartref, NVQ Lefel 3. Mae hefyd yn asesydd i'r Cyngor i NVQ. Mrs J. Roberts, Mrs R. Thomas yn derbyn Tystysgrif Lefel 2.

Llongyfarchiadau.

Ymdrechu y flwyddyn yma i wneud NVQ mae Mrs Y Owen, Mrs Sh. Davies, Mr S. Llywelyn. Pob lwc i'r tri.

CYWIRIAD: Yn rhifyn diwethaf yr Eco roedd gair o ddiolch gan deulu'r ddiweddar Beryl Janet Owen, 46 Maes Padarn. Diolchwyd am y rhoddion at Feddygfa Llanberis. Ymddiheurwn i'r teulu fod y swm a gyfranwyd er cof amdani, sef £849, trwy amryfusedd wedi ei adael allan o'r nodyn.

PRIODAS: Ar 22 Medi ym Mhaffos, Ynys Cyprus, priododd Delyth Eronwy, merch Bert ac Ann Parry, Sycharth, Llanberis â Kerry John o Calgary, Canada. Cafwyd bendith i'r briodas ar 10 Hydref yng Nghapel Coch, Llanberis mewn gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig John Pritchard. Dymuna Delyth a Kerry ddiolch iddo am y gwasanaeth arbennig a gafwyd yn ystod oedfa'r bore. Hoffent hefyd ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau ym mro'r Eco am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd.



Delyth a Kerry

DIOLCH: Hoffai Anwen Glyn Roberts a'r teulu, Tan-y-coed, Fron Goch ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd tra'n Forwyn Carnifal Llanberis. Diolch hefyd i Christine a'r pwyllgor am bopeth. Diolch hefyd i bawb am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu Anwen yn yr ysbyty.

PRIODAS: Ar 4 Awst yn Jamaica, priodwyd Tecwyn Hughes, mab Robert ac Ann Hughes, Elidir, Ael-y-garth, Caernarfon a Glenda

Jones, merch Gilbert ac Elizabeth Jones, Bod Gwilym, 7 Rhos Cambrian. Dymuna Tecwyn a Glenda ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion ym mro'r Eco am y llu anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd. Diolch yn fawr.




Glenda a Tecwyn

DIOLCH: Dymuna Mrs Morfydd Jones ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati hi a'i theulu yn eu profedigaeth. Carai ddiolch i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth yn y cartref a'r Nant; i'r meddygon ac aelodau'r feddygfa Waunfawr am eu gofal caredig dros y blynyddoedd; i Mr Arfon Phillips am fod yn gymydog a ffrind di-guro ac i Mr Myrddin Pritchard am ei drefniadau trylwyr. **DIOLCH:** Dymuna Eddie Lennon, Plas Tirion, ddiolch yn ddiffuant i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed.

DIOLCH: Hoffai Mildred Pritchard, 60 Maes Padarn ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd tra'n aros yn Ysbyty Gwynedd.

Ni all geiriau ddatgan ei gwerthfawrogiad a'i diolchiadau gwresocaf i Mrs Malley a staff Bron Eryri lle y derbyniodd y fath caredigrwydd. Duw a'ch bendithio i gyd a bydded i chwi allu parhau â'r gwaith da am flynyddoedd i ddod.

**PEIDIWCH A
GORI AR STORI
ANFONWCH HI
I'R ECO**



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



**GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO**

**CROEŞEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066**



AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnio
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

DIOLCH: Dymuna Clara Anfield, Coed-y-ddol ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch i bawb.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS: Bu mis Hydref yn fis digon prysur yn hanes y côr. Nos Sadwrn yr 2il bu'r côr yn difyrru aelodau o'r Clwb Golff ym Mhwlheli. Er mai gwan iawn oedd yr aelodau cafwyd noson ddifyr iawn a chroeso arbennig.

Nos Lun y 4ydd bu'r côr yn cynnal Noson Lawen yng Nghapel Salem, Caernarfon. Fe ddaeth nifer dda yno i wrando. Diolch yn fawr am y croeso.

Nos Sul y 10fed cafwyd noson arbennig o dda yng Nghlwb Pêldroed Caernarfon a chael rhannu llwyfan gyda lona ac Andy. Diolch am y croeso unwaith eto.

Nos Wener y 15fed bu'r côr yn cynnal Noson Lawen yn Llandegfan, Ynys Môn. Roedd y neuadd bron yn llawn a'r croeso yn llifo yno. Diolch am y wledd ar

ddiwedd y noson, edrychwn ymlaen i gael dod acw unwaith eto. Ac i orffen mi fydd y cadw noson yng Nglantraeth, Ynys Môn nos Sadwrn 23ain.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Ieuan Ellis Jones, 10 Coed y Glyn. Bu Mr Jones yn aelod gwerthfawr iawn o'r côr am flynyddoedd hyd nes y trechwyd ef gan afiechyd rai misoedd yn ôl. Diolch am ei gwmni ac am gael ei adnabod. Fe gawsom lawer o hwyl gyda'n gilydd.

Goronwy Lewis

MARWOLAETH: Bu farw Glyn Meirion Morris ar 4 Hydref mewn ysbyty yn Detroit. Roedd wedi byw yn Florida ers 22 o flynyddoedd. Bu farw ei wraig, Joyce, ar 29 Mai eleni.

Roedd Glyn yn enedigol o Lanberis. Arferai fyw yn Llainwen Isaf. Byddai'n dod adref yn aml i aros gyda'i chwaer Betty, Y Berllan, Ffordd Capel Coch (Plas Coch gynt). Cydymdeimlwn â hi ac â'i brawd a'i chwaer, Cecil ac Enid. Bydd colled enbyd ar ei ôl i'r teulu.

Coleg Cymuned

Y newyddion diweddaraf o Goleg Menai Torri Record

Torrwyd pob record yng nghanolfan y coleg yn 12 Stryd y Plas, Caernarfon yn ddiweddar pan gofrestrodd bron i 400 o bobol ar amrywiol ddsbarthiadau nos yno ddiwedd Medi. Rhwng hynny a'r cyrsiau dydd sydd hefyd yn cael eu cynnal yno mae dros 700 yn mynychu'r ganolfan yn wythnosol i gael addysg a hyfforddiant. Os am unrhyw wybodaeth bellach am yr hyn sy'n cael ei gynnig yno, y rhif ffôn hollbwysig yw (01286) 673450.

Cofiwch hefyd am y cyrsiau sydd yn cael eu cynnal mewn gwahanol ganolfannau yn ardal *Eco'r Wyddfa*. Mae'r rhain yn cynnwys *Cyfle Arall*, cyrsiau sgiliau sylfaenol sy'n cynnig hyfforddiant mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Phrosesu Geiriau. Yn eich ardal chi: Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, bore Iau 10am - 12pm a Chanolfan Noddfa,

Caernarfon, 9.30 - 11am. Mae'r rhain yn rhad ac am ddim. Ffonwch (01248) 383333 os am gael y stori'n llawn.

Arddangos gwaith a rhannu dawn

Mae gwaith un o ddarlithwyr Celf Coleg Menai i'w weld ar hyn o bryd yn Oriel 31 Y Drenewydd. Peter Prendegast, sydd â'i gartref yn Neiniolen, a sefydlodd y cwrs Sylfaen Cyn-Radd mewn Celf yn y coleg yn yr 80au. Tua 40 o fyfyrwyr oedd yno bryd hynny ond erbyn hyn mae'r nifer yna wedi codi i dros 300. Ymhlith y myfyrwyr a fu'n astudio yma o dan ei ofal y mae Gruff Rhys o'r *Super Furies*, Ann Catrin, y gof a Deiniol Morris, crewr y gyfres boblogaidd *Gogs*.

Mae gwaith Peter wedi cael ei arddangos mewn sawl arddangosfa dros y blynyddoedd ac y mae ei bortread dramatig o Chwarel y Penrhyn, Bethesda yn rhan o gasgliad Oriel y Tate, Llundain.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)


Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

BRYSLIA WELLA: Bu Cai Griffith, Bro Glyder yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion gorau ato gan obeithio ei fod yn gwella bob dydd.

NOSON GELF: Cafwyd noson lwyddiannus y mis diwethaf a phenderfynwyd cynnal Noson Gelf yn y pentref bob nos Fercher dros y misoedd nesaf. Cysylltwch â Gwenda (872711) am ragor o wybodaeth am y cyfarfodydd hyn fydd yn dechrau am 7.30 o'r gloch.

REHOBOTH: Cynhaliwyd cyfarfod dan nawdd eglwysi Dosbarth Cylch Eryri nos Fercher, 29 Medi. Cafwyd sgwrs ar 'Hanner Canrif o Bregethu' gan y Parch Ddr Gwilym H. Jones. Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail oedd yn llywyddu.

Bydd Gwasanaeth Diolch-garwch yn cael ei gynnal yn Rehoboth ddydd Sul, 31 Hydref am 2 o'r gloch. Cymerir rhan gan blant Ysgol Sul Capel Coch.



Richard Treble, Ty'n Llan a ddaeth yn ail trwy Brydain yng nghystadleuaeth Cogydd y Flwyddyn, Bragdy Robinson. Llongyfarchiadau mawr iddo.



Peter Prendegast gyda grŵp o fyfyrwyr o'r Ffindir a fu draw yn astudio yn yr uned Gelf a Dylunio y llynedd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Eurun (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisrwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Ceisiadau am Gymorth Ariannol

* * *

Gwahoddir cymdeithasau, clybiau, mudiadau a sefydliadau sydd angen cymorth ariannol gan y Cyngor uchod, i gyflwyno eu ceisiadau (ynghyd â'u taflen ariannol ddiweddaraf) i'r Clerc erbyn

y dydd olaf o Dachwedd 1999.

Ni ystyrir ceisiadau wedi'r dyddiad cau.

Anfoner at:

Dafydd Wh. Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.

Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron

Aelod o'r



**11 Rhes Faenol
LLANBERIS**
Ffôn: (01286) 871680

FFEIRIO (Y Gwalch)

Dau o'n cymdogion ni yn yr hen fferm oedd Twm Edwat a Jên, yn byw mewn tyddyn nad oedd ddim digon o faint i'w cynnal heb rhyw daladaeth arall. Roedd Twm fel llawar i un tebyg yn gweithio yn y chwarael.

Roedd o'n ganol oed yr adag honno ac wedi bod ar y môr; cyfnod a roddodd hyfforddiant i bob math o straeon, rhai wedi eu hymestyn yn beryglus o bell cyn i'r un llong gyrraedd porthladd, a thrwy eu cyfrwng roedd y traethodydd yn gallu gosod argraff ddofn ar laslanciau fel fi nad oedd yr adag honno wedi gweld fawr ddim amgenach na buwch a brân.

Dyn mympwyol oedd o ac yn awdurdod ar gwrs y byd, cerddoriaeth, gwleidyddiaeth a chadw cwningod ddf. Byddwn yn mynd yno gyda'r nosa'r gaeaf i gael y newyddion diweddaraf a'r rhamantau, gan fod talgylch gohebiaeth Twm yn ymestyn tu hwnt i'r Fenai a'r Faenol a hyd yn oed i gyrion pellaf gwlad y medra; y cwbl yn cael ei gludo i'r poncia a'r baricsod gan ddynion Sir Fôn.

Roeddwn i yno rhyw noson tua diwadd y flwyddyn, a dim ond prin wedi rhoi fy nhlun i lawr pan ddywedodd Twm rhwng poeri sug baco i'r tân,

'Mae gin i flys mynd i Sir Fôn dydd Sadwrn. Sgin ti awydd dŵad?'

'Be' ydan ni am neud yn fan honno?' medda fi.

'Mi rydw i wedi cael hanas "turn out". Mi rydw i wedi bod yn meddwl am un ers talwm. Handi i fynd â Jên i'r siop, ac mi allaswn reit hawdd ddangos yn y North Welsh yn y dre.'

'Debycach gin i mai dangos cymaint o het wyt ti i bobol 'nei

di,' meddai Jên heb godi ei phen oddi wrth ei gwnio.

Roedd y Sadwrn yn glir a heulog a rhyw ias barrug yn yr awyr — nodwedol o droad y tymor. Ffwrdd â ni ar draws y corsydd ac yn dinfain heibio bwthyn Siani'r Efail rhag i ni gael ein dal am hanner diwrnod. Roedd Twm wedi dŵad â dwy gannwyll i'w ganlyn gan fod ganddo obeithion o brynu a chael ein cludo yn ein holau yn y trap yn y tywyllwch.

Wedi croesi'r bont grôg dyma ni'n troedio yn reit heini heibio i'r Borth ac i gyfeiriad Brynsiencyn, lle yn ôl yr hanas roedd y brain sionca. Roeddwn ni yn anelu am rhyw ffarm fechan allan yn y caea yn cael ei chadw gan weddw a oedd yn cael llaw galad i gadw petha yn mynd heb ei gŵr, yn ôl dynion Sir Fôn. Roeddwn nhw wedi trio gneud map i Twm ar gefn blwch sigarêts hefo pensal biws, ac wedi gorlyfu honno cyn dechra. Yn y diwadd, â'r gwyll ar ein gwartha ni mi ddeuthon o hyd i'r lle ym mhen draw rhyw ffordd drol gul a honno wedi braidd fynd yn dynal rhwng y gwrychoedd uchaf diymgeladd.

Roedd y ddynas yn digwydd bod yn yr iard yn taflu dynnad o sbarion i'r ieir, ond yr oedd hi'n bell o fod yn gywan ei hun. Roedd ganddi gap dyn â'r pig wedi sigo a siôl fawr ddu fel cloth ceffyl wedi ei thaflu am ei sgwydda. Roedd hen wragadd yr adag honno yn heneiddio hefo pwyll ac urddas; dim sôn am walltia glas a sbectol ymyl ffansi a phynna o baent o phowdwr fel rhagarweinwyr syrcas Bertram Mills.

Ar ôl cyfnewid cwrteisi'r dydd a thrafod y tywydd a'r cnyda, dyma Twm yn gofyn iddi oedd ganddi gar a marlan ar werth.

'Mi oedd gin i,' medda hi fel'na, 'ond mi rydw i wedi gwerthu'r farlan a'r harnis. Ond mae'r car yma o hyd os oes gynoch chi awydd dŵad i'w olwg o.'

Os y cafodd Twm ei daflu hefo'r newydd hwnnw, chymodd o arno ddim, a dyma ni'n dilyn yr hen wraig i rhyw dy

gwair talcan gorad, a dyna lle'r oedd y trap, ond yr oedd hi'n berffaith amlwg ar yr olwg gynta nad oedd o'n cydfynd â honiada ei hysbysebwy. Yn un peth doedd iddo ddim ond un llorip, a'r diffyg yn yr hanner gwyll hwnnw yn ei gymharu o mewn dychymyg â phry cop wedi cael torri hanner ei goesa. Ac yn beth arall, roedd o'n amlwg wedi bod yn glwyd nosweithiol i gasgliad dirifedi o ehediaid y nefoedd a rheini wedi ymborthi yn ddistans ar amrywiaeth helaeth o ffrwytha'r maes a'r mordir o bob lliw yn enfys.

'Mae o fel tasa fo wedi bod yn cario giwano,' meddai Twm.

'Peidiwch â chymyd dim sylw o hwnna,' meddai'r ddynas. 'Mi ddaw i ffwr' mewn munud hefo dŵr poeth a brws sgwrio. Peth arall. Mae o'n beth siort gynta i gadw coedyn. Ddaw y pryfaidd ddim yn agos ato fo.'

'Nid yr unig betha,' meddai Twm.

'Ond does 'na ddim ond un llorip arno fo,' medda fi dan danglio.

'Fydd 'na fawr o draffarth taro un arall arno fo,' meddai'r hen wraig am fynnu peidio â chael ei threch. 'Mi fasa'r gŵr wedi ei osod o mewn munud, ond mi aeth mwya sydyn heb hyd yn oed blanu tatws. Mi fydd yn rhaid i mi brynu y gaea yma.' A dyma hi'n taro congl y siôl ar ei llygad. 'Beth bynnag, mi rydw i ar gael cnyswd. Dowch i mewn am damad. Mi rydd amsar i chi feddwl amdano fo.'

Ar ôl ein hirdaith doedd yna fawr o waith perswadio. I mewn â ni ar ei hôl i'r tŷ oedd rhyw radd yn dywyllach wedyn na'r tŷ gwair. Onibai fod y rhagddor yn agorad mi fasa yn dreth arnom ni beidio baglu ar draws petha. Goleuodd yr hen wraig ganwyll ar hynny a'i gosod hi ar astall a rhoddwyd Twm i ista ar rhyw hen sofffa dolciog, a dyma finna yn cael ordos i dynnu cadair at ben y bwrdd oedd wedi ei orchuddio â rhyw lian brown a thoslynna yn hongian rownd ei ymylon o a rheiny yn colli trosodd ar fy nglin i.

Pan ddaeth fy ngolwg i i

gynefino, dyma fi'n gweld cwpwrdd prês yn y gornel, ac yn syth o fy mlaen, silff ben-tân lechan uchaf a dwy iâr yn clwydo arni hi, ac yr oedd honno hefyd wedi ei strempio hefo giwano, ac erbyn hynny doeddwn i ddim yn teimlo mor llwglyd ag yr oeddwn i'n feddwl. Roedd Twm fodd bynnag fel tasa fo yn ymgodymu â phroblem fawr yr un llorip, ac am rhyw reswm yr oedd o fel tasa fo yn cael traffarth i gael ei draed o dan y bwrdd.

Yn y cyfamser daeth chwanag o ieir i mewn, ac ar ôl pigo hyd y llawr llechi dyma nhw'n codi ar eu hediaid i ben y cwpwrdd prês. Roedd yr hen wraig, rhwng crwydro yn ôl a blaen i rhyw fymryn o dŷ llaeth oedd ganddi i mofyn enllyn i ni, yn cynjio arna ni i fyta ac estyn ato fo fel tasan ni adra. Wedyn dyma Twm yn cael cyfle i sibwrdd wrtha i.

'Mae hon yn gneithar gyfa i Siani'r Efal, ond wedi i ti feddwl amdano fo, fasa'r car 'na ddim yn fargan ddrwg yn y diwadd. Roeddwn i'n cofio rŵan, mae gin i lorp ar yr hen gar dŵr 'na sydd yng nghongol y llain. Fasa dim ond angan pleinio dipyn arno fo i lawr. Dibynnu faint sy' arni isio amdano fo.' A phan ddaeth yr hen wraig drwadd wedyn dyma fo'n gofyn ar ei ben.

'Faint sana chi isio am y car 'na?'

'Tri chant o datws,' medda hitha fel 'na, heb oedi dim.

'Tri chant!' medda Twm. 'Roedd o'n deud yn y papur eu bod nhw yn bum ceiniog y pwys yn Ormskirk.'

'Fydda ni ddim yn boddran hefo'r prisia tramor 'na,' medda hitha. 'Yn Llangefni y byddwn ni yn cael ein prisia.'

'Mi ro i gant a hanner i chi,' medda Twm yn ddigon parod.

Ddeudodd hi ddim am hynny ond diflannu wedyn a thynnu ei siôl yn dynnach amdani. Toc dyma ni'n ei chlywad hi'n gweiddi o'r tŷ llaeth.

'Dau a hanner.'

'Dau,' medda Twm Edwat wedyn llawn cyn gletad, ac yr

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AA Specialist
MOT
RAC Selected

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH SERVICE

CYNLLUN DODREFN
antur waunfawr



medrwn gasglu eich hen ddodrefn
yn rhad ac am ddim
a'i ddosbarthu i bobl mewn angen

rydym angen ar gyfer ein cleientau -
dodrefn pren mewn cyflwr da / sofffa's/cadeiriau
esmwyth yn cyfarfod Rheolau Tân 1988
/ gwla ac offer ty amrywiol

☎ 01248 355 112

Gwasanaeth Ailgylichu Gwynedd
safle Wê www.anturwaunfawr.org

oedd o'n cael traffarth cael ei ddannadd gosod allan o dalp calad o fara caws.

Ymddangosodd yr hen wraig wedyn hefo tebot du fel 'Cherry Blossom' a dechrau tywallt i rhyw fygs gwefla mawr, a dyma hi'n cyrraedd un i mi yn colli trosodd.

'Dau gant a chwatar,' medda hi wedyn yn llawn mor benderfynol.

Mae hi'n anodd deud am faint y basa'r bargeinio wedi dal ymlaen onibai i anfarth o geiliog coch ddwad i mewn a neidio ar y bwrdd a dechra pigo ei ora yn y brintan fennyn. Wedyn, ar ôl iro digon ar ei lwnc erbyn caniad y bora dyma fo'n codi tros ben Twm a wyrodd ei ben dest mewn pryd, ond mi gollodd ei de. Dyma fo yn edrach i mewn i'r gwpan a gneud gwynab picalili. Wedi ei lwyr drechu dyma fo'n deud wrth y ddynas o'r diwadd, 'Fasa fo ddim yn hwylusach i chi i gyd tasa chi yn madael i'r cwt at yr ieir?' A dyma'r ddau yn taro cledra ar ddau gant a chwatar.

Roedd y broblem honno trosodd, ond yr oedd yna un waeth yn fy ngwynebu i: sut i gael y te hwnnw i lawr fy llwnc, ac wrth fy ngweld i'n nogio, meddai Twm,

'Fforsia dy hun. Fedrwn i ddim fforddio i dynnu'n groes hefo hi rwan. Yli gwranda, pan gei di 'i chefn hi, tafl o o dan y bwr' ond tendia sgaldian dy draed.'

Wrth weld ffordd sydyn ohoni hi, dyma fi'n codi ymyl y llian toslyn a gwagio cynnwys y myg i'r tywyllwch islaw, ond nid fy nhraed ddaru mi sgaldian. Daeth gwich fyddarol a rhuad gwynt. Ffrwydrodd yr ieir i bob cyfeiriad gan adael cawodydd o blu hyd y gegin, a dyma'r bwrdd yn codi fel tasa yna rhywun wedi tynnu corcyn o ben mynydd tanllyd, ac odditano daeth yr hwch 'saddleback' fwy a welis i erioed tu allan i ring y sioe, a'i holl fryd hi ar roi cymaint o belldar ag y medrai rhyngddi ei hun ag unrhyw un fasa yn cynnig panad o de boeth arall iddi tros ei chalon.

Roeddwn i ar union lwybr ei dihangfa hi ac mi ges fy hyrddio o'r neilldu fel bwndal o wellt o flaen trên Caergybi.

Ar ôl i ni hel ein hunain at ein gilydd a chodi'r bwrdd, roedd yr hen wraig yn pryderu mwy o lawar am yr hwch nac am y llestri maluriedig.

'Ofn sydd arna i,' medda hi fel yna, 'y bydd hi'n anodd ei chael hi i mewn eto ar ôl hen ypsset fel'na. Mi fydd chwith i mi am rwbath i dwmo fy nhraed yn y gaea.' Ac yr oedd hi am fynnu i ni ailafael yn y bwyd.

Ond gwrthod wnaethon ni hefo hynny o urddas a oedd gynon ni yn sbar, a'i gleuo hi allan i'r tywyllwch, ond doedd hi ddim am adael i ni gael yr afael rydd mor hawdd. Mi

ddaeth ar ein hola ni i ganol yr iard.

'Brysiwch yma eto,' meddai hi. 'Peidiwch â bod yn ddiarth. A chofiwch am y tatws.'

Fel yr oeddwn ni'n palfalu ein ffordd i'r lôn bost, dyma Twm yn deud. 'Roedd dau a chwatar yn ffyl pris am gael ddwad allan o'r gegin Jereboam yna'n fyw. Ond cofia faswn i ddim wedi lorio mor hawdd onibai am yr hen geiliog hwnnw.'

Sodrodd ei law yn ei bocad. 'Duw ysti be,' meddai wedyn. 'Roeddwn i wedi anghofio am y canwylla. Fasat ti'n licio jou o wêr i aros pryd?'

O.N. Mae gan y Gwalch erthygl am lofruddiaeth Catherine Roberts, Y Fron Chwith yn rhifyn Tachwedd o 'Country Quest'.

**Cyfeillion
Ysbyty Gwynedd**

Ffair Nadolig

yn

Ffreutur Ysbyty Gwynedd

Pnawn Sadwrn

Tachwedd 20

am 2.30 yr hwyr



Tocyn £1.00

**(i gynnwys paned
a mins pei)**

Garej Rhiwen — 1936



Mae Garej Rhiwen wedi hen ddiflannu erbyn hyn. Safai ar Stryd Fawr, Deiniolen, ger Capel Ebeneser (mae talcen festri'r capel i'w weld yn y llun). Perchennog y garej, William Hughes sydd yn y llun gyda Dorothy Walker a'i brawd Geoffrey Walker.

O graffu ar y pypiau petrol sylwch fod galwyn o Esso i'w gael am swllt a grôt, a galwyn o Shell am swllt a chwech! Mae gan Dorothy Walker lythyr diddorol ar dudalen 8 y rhifyn hwn.

Cefnogwch ein Hysbysebwy



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlydd
1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

SGORIO DROS SAFONAU MASNACH

Gan fod Manon Williams o Lanberis yn dweud fod peidio bod ag ofn baw a bod yn abal yn gorfforol yn gymhwysterau ar gyfer ei gwaith bob dydd, mae'n sicr fod chwarae pêl-droed i dim merched Bangor yn help iddi ddatblygu'r cyneddfau yma. Mae'n rhaid iddi hefyd fod yn gallu cyfathrebu'n rhwydd hefo pobl o bob math, a gwneud hynny'n ddwyieithog os yn bosib. Yn ei rôl fel Swyddog Safonau Masnach, mae hi allan yn y priffyrdd a'r caeau yn amlach na heb, yn tafoli, mesur a chynghori masnachwyr a'r cyhoedd, ac mae'n bwysyg gallu gwneud hynny mewn ffordd sy'n dderbyniol.

I Gyngor Gwynedd mae Manon yn gweithio. Enillodd ei gradd yn dilyn cwrs Gwarchod y

Cyhoedd ym Mhrifysgol Manceinion yn gynharach eleni, ac mae'n dal i astudio am ddeunaw mis arall tra wrth ei gwaith er mwyn cymhywso'n llawn. Cafodd ei noddi gan y Cyngor fel bod ganddi le i dreulio ei chyfnodau o brofiad gwaith yn ystod y cwrs gradd. Erbyn hyn, bob yn ail flwyddyn mae Cyngor Gwynedd yn cynnig nawdd o'r math yma ym maes safonau masnach, ac mae'r galw am swyddogion sydd wedi cymhywso yn daer iawn drwy Brydain.

Tra yn Ysgol Brynrefail, roedd Manon wedi mwynhau pynciau gwyddonol, ac wedi cael tair Lefel A mewn Bywydeg, Cemeg a Ffrangeg. 'Erbyn hyn, rwy'n gallu gweld y byddai astudio'r gyfraith at Lefel A wedi bod yn

help mawr imi yn ystod y flwyddyn gyntaf yn y coleg,' meddai Manon.

'Wrth feddwl pa yrfa i fynd amdani, ro'n i wedi ystyried pethau fel Ffisiotherapi,' meddai 'ond doeddwn i ddim yn ffansio gorfod bod dan do drwy'r amser. Pan glywais am Safonau Masnach, roedd yn apelio fel gyrfa sy'n rhoi digon o amrywiaeth, ac yn caniatáu imi fod allan gryn dipyn — dydw i ddim wedi difaru o gwbl.'

Mae'r gwaith dyddiol yn cynnwys ymweld â siopau, tafarnau, modurdai a chaffis i roi prawf ar unrhyw offer, prisiau neu eirwiredd labeli, gan fynd ag achosion trwy'r llysoedd ar brydiau. Bydd Manon hefyd yn ymateb i gwynion oddi wrth y cyhoedd, ac yn cymryd samplau hwnt ac yma i'w hanfon i'r labordy i'w dadansoddi. Mae'r ardal waith yn eang, ac yn golygu cryn dipyn o deithio'r wlad.

Oherwydd y prinder swyddogion safonau masnach sydd drwy Brydain ar hyn o bryd, mae'r proffesiwn yn edrych ar gynnwys a gofynion y cyrsiau sydd ar gael, yn y gobaith o'i wneud yn fwy hyblyg a pherthnasol. Hefyd, gan fod cost hyfforddi yn y maes yma mor uchel, mae'r Llywodraeth wdi addo £1.5m yn flynyddol i helpu awdurdodau lleol noddi ymgeiswyr yn ystod eu cyrsiau,

ac yn ystod y deunaw mis o waith ymarferol sy'n dilyn.

Yn ôl Dafydd Lewis, Pennaeth yr Adran Dai a Gwarchod y Cyhoedd dros Wynedd, mae'r Cyngor yn awyddus i hybu'r nifer o swyddogion safonau masnach sydd ar gael, ac mae nhw'n cynnig lleoliad i fyfyrwyr bob yn ail flwyddyn. Fodd bynnag, byddent yn hoffi gweld cynnydd yn y nifer o geisiadau mae nhw'n dderbyn am y nawdd yma. Meddai: 'Mewn ardal wledig fel Gwynedd, lle mae cyfartaledd uchel o siaradwyr Cymraeg, mae'n bwysig iawn ein bod ni'n meithrin dilyniant o bobl hefo'r cymhwysterau iawn, ond hefyd gyda sgiliau dwyieithog. Bydd hynny o fantais iddyn nhw yn y gwaith, ac i ni fel cyflogwyr.'

Roedd Manon yn ddigon balch o allu dychwelyd i fyw i Lanberis i blith ei theulu. 'Does dim prinder o bethau cymdeithasol i'w gwneud yn yr ardal,' meddai, ac mae'r hyfforddi a'r gemau pêl-droed dros y Sul yn newid pleserus o swydd brysur ac astudio i orffen cymhywso. Pob lwc iddi yn y ddau faes, yn arbennig gan iddi gael ei dethol i gynrychioli Cymru yn nhîm y merched hyn yng nghystadleuaeth Euro 2000 yn Awstria y mis hwn.

Rhiannon Gomer
Cydlynedd Gorwelion, Menter a Busnes

Adfywio Bro

Mae adroddiad arolwg bro Waunfawr a Chaeathro ar fin ei gwblhau yn ei ffurf derfynol ac anelir at drefnu cyfarfod i drafod y canlyniadau â thrigolion y pentrefi yn fuan. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus mae trigolion Rhyd Ddu a Betws Garmon wedi penderfynu cynnal arolwg bro mewn ffurf holiadur hefyd. Bydd cyfarfodydd y grwpiau thema yn dechrau cyn hir er mwyn ffurfio cwestiynau'r holiadur.

Cynhaliwyd ail gyfarfod Fforwm Fusnes Gwyrfaï gyda Dewi Llwyd Evans, Prif Swyddog Ewrop Cyngor Gwynedd yn cynnig arweiniad ar Amcan 1. Cofiwch os ydych

chi'n berchennog busnes yng Nghaeathro, Waunfawr, Betws Garmon neu Rhyd Ddu mae croeso i chi ymuno â'r Fforwm. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfaï ar 01286 650779.

Cofiwch fod croeso i unrhyw un ym mro Gwyrfaï — plwyfi Llanwnda, Llandwrog, Bontnewydd, Waunfawr a Betws Garmon — gysylltu ag Eirian i drafod syniadau. Mae nifer o gynlluniau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd felly dyma'ch cyfle chi i fod yn rhan o'r bwrlwm yma a gwneud y mwyaf o'r Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

CYFEILLION MARCONI

Nos Wener, Hydref 29 yn y Ganolfan Waunfawr cynhelir cyfarfod cyhoeddus o Gyfeillion Marconi pan y traddodir darlith gan yr Athro David Last o Brifysgol Bangor. Sefydlwyd y gymdeithas,

Cyfeillion Marconi, i goffau a chadw yn fyw gysylltiadau y gŵr enwog ag ardal y Waunfawr yn sgil adeiladu'r orsaf radio ar y Cefn Du.

Yn y cyfarfod bydd cyfle i ymaelodi yn y gymdeithas sydd a chynrychiolwyr o blwyfi Llanrug a'r Waunfawr ar y pwyllgor, gyda Mr Gwilym O

Williams, Fferm Bodhyfryd, yn Gadeirydd ac ef hefyd fydd llywydd noson y ddarlith uchod. Ymhen amser, gyda charedigrwydd

Antur Waunfawr gobeithir neilltuo ystafell yn Amgueddfa'r Antur i gynnwys offer a dogfennau fydd yn gysylltiedig â gorsaf Marconi ar gopa'r Cefn Du yn y blynyddoedd a fu. Bwriedir hefyd gyhoeddi pamffled yn achlysurol a fydd yn cynnwys newyddion am gynlluniau'r gymdeithas i'r dyfodol. Deallir fod amryw wedi ymaelodi yn barod.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill


Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

CROESAIR TACHWEDD



ENW.....
CYFEIRIAD.....
..... CÔD POST

Mae yna gysylltiad rhwng saith o'r atebion ar hyn o bryd, ac mae 'na gysylltiad hefyd rhwng y rhifau sydd yn rhan o'r cliwiau hynny.

AR DRAWS

1. Pump deirgwaith (6,5)
7. Merch cymar y mab?(4)
11. Triniaeth arw triniaeth Doris a Meg (9)
12. Gwyddor offerynnau mecanyddol (7)
13. Gyrru llythyr yn ôl ar ddechrau'r dydd yn fywiog (6)
14. Y gair a ddefnyddir am rywun wrth sôn amdano (3)
15. Tagiad wrth gael paned o gwpan fawr? (6)
18. Y rhai sydd rhwng ystafelloedd a'r rhai wrth eu pennau (8)
20. Ar ôl 22 i lawr bum gwaith (8)
22. Dewis brathu! (4)
24. Malu eda i wneud tlysau (7)
25. Lliw ffrwyth (4)
29. Ieua byrion (8)
30. Rhyfeddod hen ffemen Noa (8)
34. Spectol, un laes, fler (6)
35. Stumog anferth yr esgob o Landaf (3)
36. Gwên hunan-gyfiawn ciw Nel (6)
39. Lle caeëdig (7)
40. Wyth unwaith (6,3)
41. Ymdrybaeddu fel pobl Môn! (4)
42. Arwerthwyr (11)

I LAWR

1. Draenen yn pigo Dennis Thatcher (6)
2. Cadwynau addurnol (7)
3. Offer sy'n creu sefyllfa cyffelyb i sefyllfa real (8)
4. Llwyth blodeuyn (4)
5. Naw ddwywaith (6)
6. a 21. Naw unwaith (4,3)
8. Poenydiwr. Trafeiliwr ar ôl car sydd ddim yn cychwyn (9)
9. Negas y dyn meddw? Penwaig (9)
10. Pryf genwair i 'sgotwr (7)
16. Damegau anwir celloedd rhyw (7)
17. Cledd Ena yn achosi lladdfa (7)

19. Ennaint (3)
22. Saith bum gwaith (5,1,3)
23. Clustfeiniwch! (9)
26. Aderyn y pumed nyth (3)
27. Ai lle dyn? Nage'n wir (7)
28. Allt yn hepgor i fynydd (8)
31. Un a ddewisir oherwydd ei bawen ddi-siap? (7)
32. Amhosibl (7)
33. Pys bychain (6)
37. Tua chwech bum gwaith (4)
38. Daw ar ôl 37 i lawr (4)

CROESAIR HYDREF

Llongyfarchiadau i'r tri ar ddeg a lwyddodd i ateb croesair mis Hydref yn llwyddiannus. Mae'n amlwg eich bod wedi byseddu'r adran 'Planhigion' yn y Geiriadur Mawr am oriau — mae enwau ecsotig iawn i'w cael ar rai. Fe lwyddoch i'w darganfod i gyd, er gwaetha'r ffaith fod Cwman (Gwman - 32 i lawr) wedi ei newid i Gwmaman gan y Wasgl!

Y rhai oedd yn gywir oedd Moren Lennon, Llanberis (Na, Moren, doedd yna ddim camgymeriad); Eirwen Roberts, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Dilys A Pritchard-Jones, Abererch; M.P. Jones, Clynnog; N. Hughes, Cwm-y-glo; Hywel Griffith, Awstralia; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans, Caernarfon; Catherine A. Jones, Rhiw; Jennie Williams, Clynnog ac Eluned Jones, Pencaenewydd. Deryniwyd tri ymdrech arall hefo mân gamgymeriadau. Enillydd y mis ydi N. Hughes, 4 Stryd Newydd, Cwm-y-glo LL55 4DE. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl datrys croesair y mis yma, anfonwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Tachwedd 20.

DYDDIADUR MIS TACHWEDD

1. Llyn **DEINIOLEN:** Cymdeithas Cyfeillion Llandinorwig. Sgwrs a sleidiau gan Miss Moeller a Miss Mathews.
CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau
2. Maw **PENISARWAUN:** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn yr ysgol am 7.15
PENISARWAUN: Yr Urdd yn ail ddechrau am 6 o'r gloch
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. Cyfarfod Blynnyddol.
4. Iau **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwirydd yn Ebeneser am 2 o'r cloch.
DINORWIG: Y Gymdeithas Lenyddol. Cyngerdd agoriadol.
5. Gwe **LLANBERIS:** Arddangosfa tân gwyllt ym Mhlas Pengwaith.
6. Sad **BETHEL:** Yr Eisteddfod yn y Neuadd am 1 a 6 o'r gloch.
WAUNFAWR: Yr Eisteddfod Bentref yn y Neuadd.
8. Llyn **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Lenyddol am 2, gyda'r Parch Trefor Jones.
WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol, 'Hwyl y Talwrn' gyda'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen.
DEINIOLEN: Y Cyngor Eglwys. Sgwrs gan y Parch Harri Parri yng Nghefnywaun — 'Dechrau a Diwedd Canrif'.
9. Maw **LLANRUG:** Merched y Wawr gyda Mrs Nesta Jones, Pant Glas.
10. Mer **BETHEL:** Merched y Wawr. Paratoi at y Nadolig.
12. Gwe **PENISARWAUN:** Ffair Nadolig yn yr ysgol.
15. Llyn **DEINIOLEN:** Merched y Wawr. Ymweliad ag Antur Waunfawr.
CAEATHRO: Cymdeithas Cae Chwarae. Cyfarfod Blynnyddol.
16. Maw **BETHEL:** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Mr Geraint Lloyd Owen.
17. Mer **PENISARWAUN:** Plaid Cymru. Sgwrs gan Mrs Mary Vaughan Jones.
18. Iau **PENISARWAUN:** Cyngor Plwyf Eglwysig yn y Neuadd am 7 o'r gloch.
LLANBERIS: Noson Lawen yn Ffestri Capel Coch am 7.30. Lleisiau Lliwedd a Carys Edwards.
22. Llyn **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol gyda'r Parch H. Gwynfa Roberts.
23. Maw **PENISARWAUN:** Cymun Bendigaidd yn Eglwys y Santes Helen i ddathlu Gŵyl Sant Deiniolen.
27. Sad **CAEATHRO:** Taith siopa i Ganolfan Parc Trafford.

RHAG-HYSBYSIADAU

- RHAGFYR 3:** Ffair Nadolig Plaid Cymru, Waunfawr
RHAGFYR 3: Ffair Nadolig Plaid Cymru Deiniolen.
RHAGFYR 5: Cymanfa garolau Merched y Wawr yng Nghaernarfon.
RHAGFYR 11: Ffair Nadolig ym Mhlas Pengwaith.

RHODDION

£10: Mrs Myfi Roberts, Rhes Plastirion, Llanrug; Mrs Catherine Williams, 6 Rallt Goch, Llanberis.
£5: Mr Gordon Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel; David a Nia Jones, 15 Bro Waun, Waunfawr; Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Mr Wyn Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-glo; Mrs Glenys Roberts,

13 Maes Gwylfa, Deiniolen; Er cof am Glyn Meirion Morris, Detroit.
£4: Mildred Pritchard, 60 Maes Padarn, Llanberis; Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis; Miss M. Griffith, Bangor; Mrs J. Williams, Morfa Bychan.
£3: Helen W. Jones, 9 Tai Caradog, Deiniolen; Mrs Clara Roberts, Anfield, Llanberis.
£2: Mr Hugh Vaughan Evans, Bron Eryri, Llanberis; Kevin ac Anwen, Gwel-fynydd, Clwt-y-bont; Mrs Jenny Davies, Llangetho; Mrs Beryl Davies, Plymouth; Mrs Elizabeth Edwards, Treffynnon; Mrs M.E. Edwards, Stone; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Mr a Mrs Owen Jones, Llangefni; Mrs Lena Lee, Morfa Bychan; Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Mr R.W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mr Alun T. Williams, Waunfawr; Mrs B. Williams, Bishop Auckland; Mr Ronnie Williams, Leicester; Di-enw.



BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

CHWARAEON

Stadiwm y Mileniwm

Gan Owain Sion Williams, Bethel

Ar ddydd Iau, 7 Hydref roeddwn i lawr yng Nghaerdydd yng nghanol y cefnogwyr rygbi yn cefnogi'n tîm cenedlaethol. Roedd y disgwyliadau yn uchel iawn ond yn wir, nid felly yr oedd hi i fod...

Roedd y strydoedd yn boddi dan fôr o grysau coch a'r rhan fwyaf yn ymlwybro'u ffordd am giatiau'r stadiwm. Trwy giât 6 yr oeddwn i a fy nghefnder yn mynd i mewn a phan eisteddais ar fy set roeddwn yn gobsmac! Roeddem yn eistedd 11 rhes o'r cae! Roedd y stadiwm yn anhygoel. Rwyf wedi ymweld â llawer stadiwm, fel Nou Camp, Wembley, ac Anfield ond roedd 'Stadiwm y Mileniwm' yn ben ac ysgwyddau yn well na'r rheiny. Wrth i'r stadiwm lenwi cynhesodd y canu a hynny dan ddylanwad y band. Pan ddaeth y tîm allan ffrwydrodd y cae gan floedd y cefngowyr. Pan ganwyd yr Anthem Genedlaethol aeth ias oer i lawr fy nghefn, roeddwn fel Catatonia yn 'Thank the Lord I'm Welsh'.

Er yr 'heip' mawr, siomedig oedd chwarae Cymru a'r canlyniad terfynol, 31 — 38. Er y chwarae siomedig roedd yn braf bod yno i weld Neil Jenkins

Gêm y Werin?

Gwariwyd yn helaeth ar greu hysbyseb S4C ar gyfer rhaglen Y Clwb Rygbi. Yn ddirdynol apelio mae at elfennau emosiynol ein cenedl — y mynydd-dir, y glöwyr, yr ieuanc yn ceisio efelychu cewri'r gorffennol. Y mae'r gêm yn rhan anatod o'n gwead. Dychmygwch hapusrwydd dau o'm cyfeillion pan glywsant eu bod am dderbyn dau docyn ar gyfer gêm Cymru yn erbyn Awstralia. Yna'r realaeth. Cost y tocyn rhataf oedd £50.00, ac yna'n 'mestyn i £75.00 Gyda chost gwesty, neu hyd yn oed teithio 'nôl a blaen mewn diwrnod, gallwch ddychmygu'r gost.

Maddeuwch i mi am fod yn sinicaidd, ond £25.00 i weld gêm bêl-droed ddibwys yn Wrecsam, yna £50.00 am gêm, fwy pwysig rwy'n cyfaddef, yng Nghaerdydd. Ydy'r awdurdodau chwaraeon yn adnabod eu 'gwerin' yn well na mi. Gwyn ein byd ni fel cenedl os gall ein 'gwerin' gyffredin fforddio'r fath brisiau. Onid ydym yn prysur greu cymdeithas o gefnogwyr cadair freichiau. Ac rwy'n sicr nad bod yn blwyfol yw mynegi'r farn fod gormod o agweddau'n cenedl yn cael ei canoli yn ardal Caerdydd.



(Meseial!) yn torri record pwyntiau Michael Lynach.

Roedd yr awyrgylch o gwmpas y strydoedd wedi'r gêm yn ddigalon. Roedd pawb yn sefyll a pheint yn eu llaw gan edrych ar y llawr — doedd dim o'r canu fel cyn y gêm. Ar y cyfan mae Stadiwm y Mileniwm yn haeddu 11/10.

Yr Hawl i Freuddwydio



Pan oeddwn i'n fachgen, un uchelgais oedd gennyf, sef chwarae ar Ffordd Farrar, Bangor. Dyna oedd ein Wembley lleol, a chofiwch yn y 50au a'r 60au caed torfeydd dros y mil i weld gemau *Welsh League* — y gynghrair i Bangor Reserves yr adeg hynny. Erbyn heddiw, mae breuddwydion ein chwaraewyr ieuanc yn fwy pellgyrhaeddol. Efallai mai Anfield, Old Trafford yw'r gyrchfan, neu i ni Gymry, Stadiwm y Mileniwm. Y wefr o redeg allan yn gwisgo'r crys coch o flaen 72,500 o bobl. Ie, ond yr ychydig wnaiff gyflawni'r freuddwyd, ond mae gennym oll yr hawl i freuddwydio, ond oes?

Un yn dechrau'r daith yw Aled Roberts, 10 oed o fferm Yr Aden, Pontrug. Disgybl yn Ysgol Bethel yw Aled, a rygbi yw ei gamp. Yn haf 1999 ymunodd ag Adran Ieuencid Clwb Rygbi Caernarfon. Gwnaeth ei farc yn gyflym iawn a'i ddewis i garfan rygbi Arfon dan 11. Prop pen-rhydd yw ei

Bûm draw yn Ninbych yn ddiweddar yn sylwebu ar gêm ail rownd Cwpan Cymru rhwng Dinbych a Llangefni. Fel rhagymadrodd i'r gêm gofynnwyd i mi wneud tipyn o ymchwil i hen Gwpan Cymru. Llwyddais i ddarganfod rhai ffeithiau rhyfeddol iawn.

Yn gyntaf, dyma'r tlws pêl-droed hynaf un yn Ewrop, gan i'r gêm gyntaf gael ei chwarae yn y Drenwydd ar Hydref 13, 1877. Eu gwrthwynebwyr y diwrnod hwnnw oedd y Derwyddon — a braf nodi fod y ddau dim erbyn hyn yn aelodau o'r Gynghrair Genedlaethol. I ni yn lleol, roedd gêm ddarbi fawr ym mlwyddyn gyntaf y gystadleuaeth gyda Bangor yn curo Caernarfon o 1-0, cyn mynd allan yn y rownd gyn-derynol wrth golli i'r Derwyddon. Sut tybed oedd y timau yn teithio yn y blynyddoedd cynnar? Gyda trên mae'n siŵr, ond diolch i

Y Cwpan Rhyfeddol

Beeching, y bws a'r A470 yw hi erbyn hyn. Yn nhymor 1878-79 ceir canlyniad rhyfeddol iawn. Chwaraeodd Y Rhyl — enillwyr y cwpan mewn blynyddoedd i ddod — eu gêm gyntaf yn y cwpan. Colli fu eu hanes o 1-0 yn erbyn tîm Ysgol Friars, Bangor. Meddyliwch am dim ysgol yn cystadlu mewn cwpan cenedlaethol. Ys gwn i ai tîm o ddisgyblion, neu staff, neu gymysgedd oedd y tîm hwnnw? Beth amdani, ar gyfer y tymor nesaf, Ysgol Brynrefail.

Ydi hanes yn ailadrodd ei hun tybed? Yn ail rownd y cwpan yn ei blwyddyn gyntaf roedd Bangor yn curo Corwen o 7-0. Yn yr ail rownd 1999, crafu curo o 2-1 wnaeth Bangor yng Nghorwen. Mae'n ymddangos mai rhyw deitl llac oedd 'Cwpan Cymru' yn y blynyddoedd cynnar, gan mai ychydig iawn o dimau'r de a fyddai'n cystadlu. Roedd rygbi yn ei antert, ac yn apelio at y gweithwyr glo ac alcarn. Un o'r enillwyr rhamantus yw pentref Llansant-ffraid, neu TNS Solutions erbyn heddiw. Dim ond ers y 60au y buont hwy yn cystadlu, ond eto llwyddwyd i godi'r cwpan yn 1996 pan gurwyd Y Barri ar yr hen Stadiwm Cenedlaethol. Crwydro fu'r rownd derfynol hyd at yn ddiweddar a buasai cryn awyrgylch ar feysydd llai fel Belle Vue y Rhyl, neu'r Cae Ras ar gyfer y rowndiau terfynol, yn enwedig pan oedd hi'n Ogledd yn erbyn De. Un ffaith unigryw am y Cwpan yw'r nifer o dimau Seisnig sydd wedi ei hennill. Yn wir, hwy enillodd y cwpan rhwng 1933 a 1947.

Mae uchafswm penodol (64) i'r nifer gaiff gystadlu erbyn heddiw ond hyd at y 50au câi rhywun gystadlu — yn wir cafwyd 90 o dimau yn 1950. Cynyddodd apêl y Cwpan gyda'r cyfle i gystadlu yn Ewrop. Daeth enwau Naples a Borough United yn rhan o'r chwedloniaeth. Cofiaf, yn nhymor 1969-70, fynd i Gaerdydd i weld tîm Bethesda Athletic yn colli 6-0 ar Barc Ninian. Y tymor canlynol — a minnau'n dysgu yn y De erbyn hynny — cefais y wefr o weld Caerdydd, enillwyr y cwpan, yn curo'r cewri, Real Madrid, yng Nghwpan Enillwyr Cwpanau Ewrop. Roedd cwpan Cymru yn ddolen gyswllt rhwng Parc Meurig a'r Bernebeau!

Pwy fydd yn codi'r cwpan eleni tybed? A ddown ni'n ôl i'r hen ddyddiau o gau yr ysgolion lleol yn gynnwys am fod John Charles, Ivor Allchurch a thîm Caerdydd yn chwarae ar Ffordd Farrar ar bnawn Mercher? Dwi ddim yn meddwl rhywsut, ond buasai'n braf yn ei gweled hi'n Gwpan Cymru go iawn — gyda phob tîm Cymreig yn cystadlu.